Gwyddor Gymdeithasol mewn Llywodraeth
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Social Science in Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif:53/2013

www.cymru.gov.uk

# Arolwg Llais y Dysgwr Cymru Canlyniadau 2013

"Llais y Dysgwr Cymru"



# Arolwg Llais y Dysgwr Cymru
# Canlyniadau 2013

**Ipsos MORI**

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Enw: Siân Hughes
Adran: Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR
Rhif Ffôn: 0300 062 2239
E-bost: Post16Quality@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN 978-1-4734-0189-1
© Hawlfraint y Goron 2013

# Cynnwys



**Crynodeb Gweithredol……………………………..** sleid 4

**Geirfa …………………….……………………….** sleid 8

**Cefndir a methodoleg…..………………..………** sleid 12

**Y Prif Adroddiad**

1. Barn gyffredinol a disgwyliadau……………….. sleid 18
2. Deall y gwahaniaeth rhwng is-grwpiau……….. sleid 26
3. Crynodebau'r sectorau………………………… sleid 33
4. Edrych ar agweddau at y profiad cyffredinol… sleid 44
5. Help a Chymorth……………………………… sleid 57
6. Addysgu a hyfforddi…………………………… sleid 62
7. Gwybodaeth a chyngor……………………….. sleid 67
8. Iechyd a lles…………………………………… sleid 71
9. Ymatebolrwydd……………………………….. sleid 76
10. Dysgu yn Gymraeg………………………….... sleid 81

**Atodiad…………………………………………...** sleid 94

# Crynodeb gweithredol

# Crynodeb gweithredol - 1



*Comisiynwyd arolwg Llais y Dysgwr Cymru gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16. Cynhaliwyd yr arolwg gan Ipsos MORI. Cymerodd dros 50,000 o ddysgwyr ar draws y sectorau addysg bellach (AB), dysgu seiliedig ar waith (WBL), dysgu oedolion yn y gymuned (ACL) a Chymraeg i Oedolion (CiO) ran yn yr arolwg rhwng Ionawr a Chwefror 2013.*

*Mae'r adroddiad hwn yn rhoi safbwynt Cymru Gyfan, gan gyfuno a chymharu data ar draws y pedwar sector.*

## Darlun cadarnhaol yn gyffredinol

•Yn gyffredinol, mae'r rhan helaeth o ddysgwyr yng Nghymru yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch eu darparwr a'u profiad dysgu: dywed 36% fod eu darparwr yn 'dda' a 48% ei fod yn 'dda iawn'. I naw dysgwr o bob deg (90%), mae'r cwrs naill ai wedi bodloni eu disgwyliadau neu wedi rhagori arnynt. Oherwydd y cyfraddau boddhad uchel iawn, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y safbwyntiau 'da iawn' er mwyn dangos y gwahaniaethau rhwng sectorau a/neu grwpiau o ddysgwyr: mae cyfran y dysgwyr sy'n teimlo bod eu darparwr yn 'dda iawn' yn gyffredinol yn amrywio rhwng 25% ac 84%.

•Mae dysgwyr yn teimlo'n fwyaf cadarnhaol ynghylch yr addysgu a'r hyfforddi (mae 53-61% yn disgrifio hyn fel 'da iawn') a'r parch gan staff (63% 'da iawn'). Maent gryn dipyn yn llai cadarnhaol ynghylch y wybodaeth a'r cyngor a roddwyd (yn enwedig o ran opsiynau ar ôl eu cwrs – 34% 'da iawn') a'r adborth a roddwyd gan ddarparwyr yn sgil cael barn y dysgwyr (31% 'da iawn').

•Mae dysgwyr mewn AB yn fwy tebygol o ddweud bod eu darparwr yn 'dda' nag yn 'dda iawn' ar nifer o fesurau o'u cymharu â'r rheini yn y sectorau WBL, ACL a CiO. Un eglurhad ar gyfer y patrwm hwn yw'r ganran uchel o ddysgwyr ifanc mewn addysg bellach o'i chymharu â sectorau eraill (mae'r grŵp hwn yn gyffredinol yn llai bodlon na dysgwyr hŷn). Fodd bynnag, mae dysgwyr iau mewn addysg bellach yn llai cadarnhaol o'u cymharu â'u cyfoedion mewn sectorau eraill, sy'n awgrymu bod ffactorau esboniadol eraill. Nid yw'r data yn dangos yn glir pam mae hyn yn wir. Byddai modd ychwanegu cwestiynau cyd-destunol at arolygon yn y dyfodol i edrych ar y mater hwn ymhellach.

# Crynodeb gweithredol - 2



## Ysgogwyr profiad cyffredinol

- Cynhaliwyd dadansoddiad atchweliad i ddynodi'r elfennau dysgu sy'n cyd-fynd fwyaf â barn gadarnhaol ynghylch darparwr.  Nododd y gwaith dadansoddi dair elfen fel y rhai pwysicaf: help a chymorth; addysgu a hyfforddi; a gwybodaeth a chyngor.
- Mae addysgu a hyfforddi yn cael sgôr gadarnhaol iawn gan ddysgwyr ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, wrth edrych i'r dyfodol, dyma'r ddwy brif flaenoriaeth ar gyfer gwella: i) 'help a chymorth' a roddir i ddysgwyr – hwn yw ysgogwr cryfaf profiad y dysgwr, ond eto dim ond 44% sydd o'r farn ei fod yn 'dda iawn'; a ii) 'gwybodaeth a chyngor' a roddir i ddysgwyr – hwn yw'r trydydd ysgogwr cryfaf, ond dim ond 38% o ddysgwyr sydd o'r farn ei fod yn 'dda iawn'.

## Gwahaniaethau yn ôl is-grwpiau

- Mae nifer o batrymau cyson yn dod i'r amlwg wrth ganolbwyntio ar brofiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr; edrychwyd ar y patrymau hyn mewn nifer o arolygon ymhlith dysgwyr ôl-16 hefyd, gan gynnwys Arolwg Boddhad y Dysgwr FE Choices yn Lloegr. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n ddynion yn llai bodlon na menywod, ac mae dysgwyr o gefndiroedd ethnig Asiaidd a Chymysg yn llai cadarnhaol na dysgwyr gwyn.
- Ceir cyswllt cadarnhaol rhwng boddhad ac oed hefyd, yn genedlaethol ac *o fewn* sectorau.  Felly, un esboniad posibl yw bod gan y grwpiau hyn o ddysgwyr wahanol ddisgwyliadau a phrofiad blaenorol sy'n dylanwadu ar eu barn.  Gellid profi'r ddamcaniaeth hon drwy gynnal rhywfaint o waith ymchwil dilynol ansoddol gyda dysgwyr a/neu drwy gynnwys nifer bach o gwestiynau cyd-destunol yn arolwg nesaf Llais y Dysgwr.

# Crynodeb gweithredol - 3



## Dysgu yn Gymraeg

- Isel yw'r galw am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (dim ond un y cant) neu'n ddwyieithog (naw y cant). Fodd bynnag, dywedodd cyfran sylweddol o'r dysgwyr hyn na chawsant gynnig y cyfle i ddysgu yn yr iaith o'u dewis: dim ond 54% o'r rheini a oedd yn dymuno dysgu'n ddwyieithog oedd wedi cael cynnig yr opsiwn hwn, a dim ond 29% o'r rheini a oedd yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd wedi cael cynnig hyn.

## Argymhellion ar gyfer ysgogi gwelliannau

- Cynnal y lefelau boddhad uchel ym maes addysgu a hyfforddi, sef yr ail ysgogwr cryfaf o ran boddhad â'r darparwr yn gyffredinol.
- Gwella 'help a chymorth' a 'gwybodaeth a chyngor' i ddysgwyr (yn benodol, amser darparu’r wybodaeth ynghylch y llwybrau a oedd ar gael i ddysgwyr ar ôl gorffen eu cwrs). Mae'r ddau yn ysgogwyr allweddol ar gyfer boddhad, ond ar hyn o bryd yn cael sgôr llai cadarnhaol gan ddysgwyr.
- Cyflawni gwaith dilynol gyda dysgwyr i ddeall pam eu bod yn teimlo'n lleiaf cadarnhaol ynghylch adborth y darparwr mewn ymateb i ddysgwyr yn rhoi eu barn, er enghraifft, beth oedd eu profiadau mewn perthynas ag adborth a beth yw eu disgwyliadau? Mae'n bwysig deall hyn oherwydd ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb gan gyfran sylweddol o ddysgwyr, neu roedd yr opsiwn 'ddim yn gwybod' wedi cael ei ddewis.
- Cynnwys nifer bach o gwestiynau cyd-destunol yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru i ddeall yn well pam mae dynion, dysgwyr o gefndiroedd Asiaidd a Chymysg, a dysgwyr iau yn llai cadarnhaol am eu profiad yn gyffredinol.

## Geirfa

# Geirfa - 1

| | |
|---|---|
| ***Dysgu oedolion yn y gymuned (ACL)*** | Gellir diffinio dysgu oedolion yn y gymuned (ACL) fel cyfleoedd dysgu hyblyg i oedolion a ddarperir mewn canolfannau cymunedol i fodloni anghenion lleol. Mae ACL a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig darpariaeth eang iawn. Mae'n cefnogi cyfleoedd dysgu a gynigir gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ac awdurdodau lleol. |
| ***Sylfaen (maint)*** | Y 'sylfaen' yw nifer yr ymatebion a roddir i gwestiwn penodol yn yr arolwg. |
| ***Meincnod / meincnodi*** | Defnyddir meincnodau i gymharu canlyniadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Maent yn cymharu canran y dysgwyr sy'n rhoi un ateb o grŵp A â chanran y dysgwyr sy'n rhoi'r un ateb yn grŵp B. |
| ***Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)*** | Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r is-grŵp hwn yn cynnwys dysgwyr o gefndir Du, Asiaidd, Cymysg, a chefndiroedd ethnig Eraill. |
| ***Profion gwybyddol*** | Mae profion gwybyddol yn golygu cyfweliadau wyneb yn wyneb â dysgwyr i gael gwybod sut maent yn dehongli geiriad yr holiadur ac yn ymateb iddo. Pwrpas hyn yw sicrhau bod pawb sy'n ymateb yn dehongli'r cwestiynau'n gyson, a bod y cwestiynau'n gofyn yr hyn y mae'r ymchwilydd am iddynt ei ofyn. |
| ***Sgoriau cyfansawdd*** | Mae sgoriau cyfansawdd wedi cael eu creu ar gyfer pum thema yn yr arolwg: gwybodaeth a chyngor, addysgu a hyfforddi, ymatebolrwydd, help a chefnogaeth, ac iechyd a lles. Maent yn cael eu cyfrifo ar lefel yr unigolyn, gan gymryd cyfartaledd ymatebion dysgwyr i bob cwestiwn yn y thema honno. |
| ***Pwysoli data*** | Proses i addasu proffil sampl yr arolwg (y rheini a gymerodd ran) er mwyn iddo gynrychioli gwir boblogaeth y dysgwyr (pawb a allai gymryd rhan). |

# Geirfa - 2

| | |
|---|---|
| ***Dadansoddi ffactorau*** | Techneg ystadegol i ganfod pa gwestiynau sydd fwyaf tebyg i'w gilydd o ran yr atebion a roddwyd gan yr ymatebwyr. Mae'r cwestiynau tebycaf wedyn yn cael eu cyfuno i greu nifer o ffactorau nad oes cysylltiad rhyngddynt y gellir eu defnyddio gyda dadansoddiadau ystadegol eraill – megis Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr (gweler isod). |
| ***Addysg bellach (AB)*** | Sefydliadau addysgol yw Sefydliadau Addysg Bellach sy'n cael arian cyhoeddus i ddarparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16. |
| ***Dysgwyr yn y cwmpas*** | Mae hyn yn cyfeirio at ddysgwyr sy'n gymwys i gymryd rhan yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru. |
| ***KDA** – *Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr** | Prawf ystadegol yw hwn a gyflawnir i ddadansoddi cryfder cymharol ffactorau (newidynnau annibynnol) wrth bennu canlyniad yr ateb i gwestiwn penodol (newidyn dibynnol). |
| ***Rhaglenni Dysgu (WBL)*** | Y math o gwrs/hyfforddiant a gyflawnir gan ddysgwr mewn WBL, er enghraifft Prentisiaeth neu Hyfforddeiaeth. |
| ***Atchweliad llinellol*** | Math o ddadansoddiad ystadegol a ddefnyddir i gynnal Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr. Mae'r dull yn edrych ar y berthynas rhwng newidyn 'sy'n seiliedig ar raddfa' (cwestiwn lle gellir gosod categorïau'r atebion ar raddfa) ac un neu ragor o newidynnau/cwestiynau i weld pa rai sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr ateb a roddwyd i'r newidyn gwreiddiol 'sy'n seiliedig ar raddfa' . |
| ***LLDD*** | Dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu |
| ***LLWR** – *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru** | Dyma system a ddefnyddir i gasglu data ar ddysgwyr, eu gweithgareddau dysgu a'u cyflawniadau ym mhob rhan o addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Defnyddir y data hwn fel sail ar gyfer Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr a data meincnodi. |

| | |
|---|---|
| *Cyfateb i LLWR* | Pan oedd hynny'n bosibl, cafodd y cod ID a roddwyd gan y dysgwyr yn ystod yr arolwg ei 'gyfateb' i'r cod perthnasol ar gronfa ddata LLWR. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi ystod o newidynnau sydd ar gael yng nghronfa ddata LLWR ond ddim yn cael eu casglu yn yr arolwg. |
| *Adnodd adrodd yn ôl ar-lein* | Mae modd i ddarparwyr gael mynediad at y data a gyflwynwyd gan eu dysgwyr drwy gronfa ddata ar-lein. Mae'r safle yn adnodd rhyngweithiol sy'n galluogi darparwyr i hidlo eu data neu i gymharu canlyniadau ar gyfer is-grwpiau penodol. |
| *Meysydd Pwnc Sector (SSA)* | Mae pob cymhwyster sy'n cael ei reoleiddio yn cael cod Maes Pwnc Sector gan y Sefydliad sy'n Dyfarnu. Gellir eu defnyddio i grwpio cymwysterau gyda'i gilydd yn themâu er mwyn dadansoddi. |
| *Ymatebion air am air* | Dyma'r union eiriad a roddir wrth ateb cwestiwn penagored, lle gall dysgwyr ysgrifennu/teipio brawddegau llawn yn hytrach na dewis ymateb. |
| *Dysgu seiliedig ar waith (WBL)* | Rhwydwaith o ddarparwyr a gontractir i ddarparu rhaglenni dysgu sy'n seiliedig ar waith. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys cwmnïau preifat, colegau Addysg Bellach, awdurdodau lleol, mudiadau trydydd sector a chonsortia. Mae'r rhaglenni yn cefnogi dysgwyr cyflogedig a di-waith ac yn cynnwys: rhaglenni Prentisiaeth; Dysgu Hyblyg; rhaglenni Hyfforddeiaeth; a rhaglenni Camau at Waith. |
| *Cymraeg i Oedolion (CiO)* | Canolfannau sy'n cynnig cyrsiau iaith Gymraeg fel rhan o'r sector dysgu oedolion yn y gymuned (ACL). Ceir chwe chanolfan i gyd. |

# Cefndir a methodoleg

## Beth yw arolwg Llais y Dysgwr Cymru?

•Mae profiadau a safbwyntiau dysgwyr wrth galon Fframwaith Ansawdd ac Effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ôl-16. Disgwylir i golegau a darparwyr dysgu gynnwys dysgwyr yn eu prosesau gwneud penderfyniadau, a defnyddio adborth dysgwyr i wella eu gwasanaethau drwy'r amser.

•Llais y Dysgwr Cymru yw'r arolwg mwyaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 i gael ei gynnal yng Nghymru, gan gyrraedd mwy na 50,000 o ymatebwyr bob blwyddyn mewn addysg bellach (AB), dysgu seiliedig ar waith (WBL), dysgu oedolion yn y gymuned (ACL), a Chymraeg i Oedolion (CiO). Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr roi adborth dienw ynghylch eu profiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, gan dynnu sylw at y cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella.

•Gall y dysgwyr lenwi'r arolwg ar-lein neu ar bapur, a gofynnir cyfres o gwestiynau iddynt am y canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth a ddarparwyd iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi;
- boddhad yn gyffredinol;
- beth maent yn ei hoffi fwyaf am eu darparwr;
- a beth y gellid ei wella yn eu barn nhw.

•Cynhaliwyd yr arolwg llawn cyntaf yn ystod Ionawr – Chwefror 2013. Roedd arolygon peilot o safbwyntiau dysgwyr wedi cael eu cynnal cyn hynny yn 2009 a 2010.

## Sut bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio?

•Bydd pob darparwr dysgu sy'n cymryd rhan yn yr arolwg yn cael adroddiad manwl yn rhoi adborth iddo – bydd hwn yn dangos ei ganlyniadau wedi'u meincnodi yn erbyn y canlyniadau ar gyfer pob darparwr yng Nghymru. Disgwylir i'r darparwyr ddadansoddi'r canlyniadau'n fanwl, a'u defnyddio i helpu i wella eu gwasanaethau i ddysgwyr y presennol a'r dyfodol.

•Bydd adroddiadau unigol y darparwyr yn gyfrinachol am flwyddyn gyntaf yr arolwg. Ar ôl 2014, bydd crynodebau'n cael eu cyhoeddi, felly bydd modd i ddysgwyr, rhieni, cyflogwyr a'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth dryloyw am foddhad dysgwyr.

•Defnyddir canlyniadau'r arolwg fel sail ar gyfer arolygiadau Estyn o ddarparwyr dysgu ôl-16, gan roi man cychwyn i'r arolygwyr edrych ar farn dysgwyr ynghylch eu profiadau, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a'r newidiadau yr hoffent eu gweld.

•Cyhoeddwyd crynodeb ystadegol o ganlyniadau arolwg y flwyddyn gyntaf ym mis Ebrill 2013 (http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2013/post-16-learner-voice-wales-survey-2013/?skip=1&lang=cy ).

## Sut cafodd y data yn yr adroddiad hwn ei gasglu?

- Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 14 Ionawr a 23 Chwefror 2013.
- Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd modd ei gwblhau ar-lein neu ar bapur.
- Lluniwyd y cwestiynau drwy ymgynghori â darparwyr, a chawsant eu profi'n wybyddol gyda dysgwyr. Cafodd y cwestiynau eu teilwra i gyd-fynd â'r cyd-destun dysgu gwahanol mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion.
- Lle bo'n bosibl, cyfatebwyd atebion yn erbyn Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Pan nad oedd yn bosibl gwneud hyn (er enghraifft, gydag ymatebion papur) neu os na lwyddwyd i gael cyfatebiad, gofynnwyd i ddysgwyr nodi eu hoedran, eu rhyw, eu hethnigrwydd a lefel eu cwrs er mwyn helpu i ddadansoddi data yn ôl is-grwpiau.
- Gofynnwyd i ddysgwyr addysg bellach amser llawn a oedd yn dilyn mwy nag un cwrs roi eu barn ynghylch ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi ar gyfer pob un o'u prif gymwysterau (hyd at uchafswm o dri phwnc). Mae hyn yn golygu bod mwy o atebion i'r cwestiynau hyn nag sydd o ddysgwyr yn cymryd rhan. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r dadansoddiad yn ôl Maes Pwnc Sector (SSA) ar gyfer addysg bellach.
- Mae ffeil Excel ar wahân o ymatebion air am air y dysgwyr o'r arolwg wedi'i darparu hefyd, ochr yn ochr ag adroddiadau darparwr unigol mewn ffeil PowerPoint. Mae'r ymatebion hyn yn ddienw, ac mae unrhyw eiriau anweddus wedi cael eu dileu.
- Yn ogystal â hyn, darparwyd adnodd adrodd yn ôl ar-lein i ddarparwyr o fis Mehefin 2013 ymlaen, gan gynnig mynediad llawn at ddata sector, lefel cwrs, ac is-grwpiau.
- I gael rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, edrychwch ar yr adroddiad technegol llawn sydd ar gael yn http://wales.gov.uk/learnervoicewales

# Ymateb i'r arolwg



- Cymerodd 53,898 o ddysgwyr ran yn yr arolwg, sy'n gyfystyr â 67.6% o'r holl ddysgwyr a samplwyd (h.y. a wahoddwyd i gymryd rhan), a 40% o'r holl ddysgwyr yn y cwmpas. Cymerodd y rhan fwyaf ran ar-lein (39,339), ac ymatebodd 655 o ddysgwyr yn Gymraeg.
- Roedd cyfradd cyfateb yr arolwg yn uchel yn gyffredinol (cafwyd 75% o achosion lle'r oedd y rhifau adnabod a roddwyd gan y dysgwyr yn cyfateb i gronfa ddata LLWR); fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio cryn dipyn o un darparwr i'r llall (0% - 100%).

| | **Cyfanswm*** | **AB*** | | | **WBL** | **ACL***** | **CiO*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Pob un**** | *amser llawn*** | *rhan-amser*** | | | |
| Cyfanswm y dysgwyr yn y cwmpas | **134,961** | 65,524 | *31,091* | *34,433* | 30,165 | 25,992 | 13,280 |
| Y sampl cyfan | **79,682** | 39,699 | *31,091* | *8,608* | 30,165 | 6,498 | 3,320 |
| Cyfanswm wedi'u cwblhau | **53,898** | 31,808 | *19,939* | *6,464* | 13,236 | 7,039 | 1,815 |
| Ar-lein | **39,339** | 29,678 | *19,612* | *5,519* | 6,828 | 2,007 | 826 |
| Papur | **14,559** | 2,130 | *327* | *945* | 6,408 | 5,032 | 989 |
| Ymateb yn Gymraeg | **655** | 152 | *93* | *28* | 97 | 188 | 218 |
| Cyfradd cymryd rhan (% yn y cwmpas) | **40.0%** | 48.5% | *64.1%* | *18.8%* | 43.9% | 27.1% | 13.7% |
| Cyfradd cymryd rhan (% sampl) | **67.7%** | 80.1% | *64.1%* | *75.1%* | 43.9% | 108.3% | 54.7% |
| Cyfateb i LLWR | **78.0%** | 84.0% | *Amh.* | *Amh.* | 54.0% | 44.0% | *Amh.* |

* Nid yw cyfanswm y dysgwyr yn y cwmpas yn cynnwys dysgwyr AB a CiO yng Ngholeg Gwent, na chymerasant ran yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru yn y flwyddyn gyntaf
** Dim ond dysgwyr a gafodd eu 'cyfateb' i'r LLWR yr oedd modd eu dosbarthu i gategori amser llawn neu ran-amser, ac felly nid ydynt wedi'u hychwanegu at gyfanswm y dysgwyr AB
*** Gwahoddwyd sampl o un dysgwr o bob pedwar yn y sector ACL i gymryd rhan yn yr arolwg hwn, ond anogwyd darparwyr, pan oedd modd, i annog mwy o ddysgwyr i gymryd rhan. Oherwydd hyn, mae'r gyfradd cymryd rhan (% sampl) ar gyfer ACL yn uwch na 100%.

## Nodiadau

- Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gyd-fynd â phoblogaeth y dysgwyr yn genedlaethol. Ceir mwy o fanylion am broffil y sampl yn yr atodiad. Cofiwch fod ambell newidyn yn dibynnu ar gyfateb i'r gronfa ddata LLWR, ac felly bod maint sylfaen yr is-grwpiau hyn yn wahanol i'r boblogaeth yn gyffredinol.
- Lle nad yw canrannau'n gwneud 100%, mae hyn o ganlyniad i dalgrynnu. 'Maint y sylfaen' yw cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n ateb pob cwestiwn. Mae'n bosibl y bydd y nifer hwn yn llai na chyfanswm nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan os bydd rhai dysgwyr wedi peidio ag ateb cwestiwn, neu os nad yw wedi bod yn bosibl cyfateb y dysgwr i'r LLWR.
- Dylid trin meintiau sylfaen is-grwpiau sy'n llai na 10 fel canllaw yn unig. Mae'r rheini o dan 5 wedi cael eu dal yn ôl er mwyn diogelu cyfrinachedd y dysgwyr. Mae'r meintiau sylfaen ar gyfer pob is-grŵp ar gael yn yr atodiad.
- Pan fo hynny'n briodol, mae canran yr ymatebion 'da iawn' wedi cael eu defnyddio i ddangos y gwahaniaethau rhwng is-grwpiau.
- Ceir arweiniad ar ddibynadwyedd ystadegau yn yr atodiad.
- Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddweud beth oeddent yn ei hoffi fwyaf am eu profiad, a beth oedd angen ei wella yn eu barn nhw. Mae'r ymatebion a roddwyd i'r sylwadau penagored hyn wedi cael eu cyflwyno mewn 'cymylau geiriau', lle mae maint y gair yn cynrychioli sawl gwaith y cododd.
- Gellir cael mwy o wybodaeth am y 'Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr' yn yr atodiad. Mae adroddiad technegol llawn ar gael hefyd yn http://wales.gov.uk/learnervoicewales.
- Roedd dysgwyr a ymatebodd ar bapur yn fwy cadarnhaol am eu profiad na'r rheini a ymatebodd ar-lein. Efallai fod nifer o resymau dilys yn egluro'r gwahaniaeth hwn (er enghraifft proffil y dysgwyr a oedd yn cyflwyno ymateb ar bapur). Bydd gwaith pellach i edrych ar effaith bosibl gan fodd yn digwydd yn ail flynedd yr arolwg yn 2013/14.

# 1. Barn gyffredinol a disgwyliadau

Mae'r adran hon yn edrych ar y prif fesurau sy'n crynhoi profiad y dysgwyr, gan gynnwys: barn gyffredinol; a oedd y profiad yn bodloni disgwyliadau; a sgoriau cyfansawdd ar gyfer themâu allweddol fel addysgu a hyfforddi.

# 1. Barn gyffredinol a disgwyliadau – crynodeb 1

Sleid 20. Mae dysgwyr mewn addysg ôl-16 ledled Cymru yn **gadarnhaol tu hwnt am eu darparwr ac am eu profiad dysgu**: mae 96% yn dweud bod eu darparwr yn dda, gyda 48% yn dweud ei fod yn 'dda iawn' a 36% yn dweud ei fod yn 'dda'.

Sleid 21. Dywed naw o bob deg fod eu cwrs naill ai **wedi bodloni eu disgwyliadau neu wedi rhagori arnynt** (90%); mae pedwar o bob deg yn dweud ei fod wedi rhagori ar eu disgwyliadau (40%).


Sleid 20. Mae'r sgôr ar gyfer profiad yn gyffredinol yn tueddu i fod yn is ymhlith dysgwyr yn y **sector AB,** o'i gymharu â dysgwyr yn y sectorau WBL, ACL a CiO. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn addysg bellach, mewn gwirionedd, yn gadarnhaol (roedd 80% yn dweud 'da'/'da iawn' o'i gymharu ag 84% o ddysgwyr yn gyffredinol); fodd bynnag, yn wahanol i sectorau eraill, maent yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael profiad 'da' (43%) yn hytrach na 'da iawn' (37%). Edrychir ar hyn yn fanylach ym mhennod 3.

Sleidiau 20-21. Mae dysgwyr hŷn yn gyson yn **fwy cadarnhaol** ynghylch eu profiad, ac mae'r un peth yn wir am ddysgwyr sy'n fenywod. Yn wahanol i hyn, mae dysgwyr o gefndiroedd ethnig Cymysg neu Asiaidd yn **llai** tebygol o ddweud eu bod wedi cael profiad 'da iawn' neu o deimlo bod eu disgwyliadau wedi cael eu bodloni neu y rhagorwyd arnynt. Edrychir ar hyn yn fanylach ym mhennod 2.

Sleid 22. Nid oes **unrhyw amrywiadau cyson yn ôl rhanbarth**, er ei bod yn ymddangos mai dysgwyr AB yng Ngogledd Cymru a dysgwyr yn y sector ACL yn Ne-orllewin Cymru yw'r rhai mwyaf cadarnhaol (roedd 41% a 69% yn dweud bod eu darparwr yn 'dda iawn').

# Mae mwy na phedwar dysgwr o bob pump (96%) yn dweud bod eu darparwr yn 'dda iawn', yn 'dda' neu'n 'eithaf da', ond mae dysgwyr mewn addysg bellach fymryn yn llai cadarnhaol

*Rhowch farn ar eich coleg/darparwr yn gyffredinol.*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 37 | 34 | 38 | 60 | 60 | 56 |

Mae dysgwyr **WBL, ACL a CiO** gryn dipyn yn fwy tebygol na'r rheini mewn AB i ddisgrifio eu profiad fel un 'da iawn'.

Mae cyfran y dysgwyr sy'n disgrifio eu profiad cyffredinol fel un da hefyd yn **cynyddu gydag oedran**.

Mae **menywod** yn fwy tebygol na dynion i ddisgrifio eu profiad fel un 'da iawn', ac mae'r un peth yn wir am **ddysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu** o'u cymharu â'r rheini heb neu anhawster neu dysgu.


Mae dysgwyr o gefndiroedd ethnig **Cymysg ac Asiaidd** yn llai cadarnhaol.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,564). Gellir gweld maint sylfaen yr is-grwpiau yn yr atodiad

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.


# Dywed naw o bob deg (90%) fod eu cwrs wedi bodloni eu disgwyliadau neu wedi rhagori arnynt

## *A yw'r cwrs hwn fel roeddech chi'n ei ddisgwyl?*




**Dadansoddiad fesul sector: % gwell na / yr hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 87 | 86 | 89 | 90 | 94 | 94 |




Dysgwyr **ACL** a **CiO** yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud bod eu cwrs yn bodloni eu disgwyliadau neu'n rhagori arnynt. Dysgwyr AB yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud bod eu cwrs wedi bodloni (52%) yn hytrach nag wedi rhagori (36%) ar eu disgwyliadau.

Unwaith eto, mae ymatebion cadarnhaol yn cynyddu gydag **oedran**; ac mae dysgwyr o gefndir ethnig **Cymysg neu Asiaidd** yn llai cadarnhaol.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,564). Gellir gweld maint sylfaen yr is-grwpiau yn yr atodiad
Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# Mae dysgwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn fwyaf cadarnhaol yng Ngogledd Cymru; a dysgu oedolion yn y gymuned yn Ne-orllewin Cymru

***Rhowch farn ar eich coleg yn gyffredinol; A yw'r cwrs hwn fel roeddech chi'n ei ddisgwyl?***

**Gogledd Cymru**

| | % da iawn yn gyffredinol | % wedi bodloni/ rhagori ar ddisgwyliadau |
|---|---|---|
| AB | 41% | 88% |
| WBL | 65% | 93% |
| ACL | 63% | 94% |

**Canolbarth Cymru**

| | % da iawn yn gyffredinol | % wedi bodloni/ rhagori ar ddisgwyliadau |
|---|---|---|
| AB | 29% | 84% |
| WBL | 62% | 93% |
| ACL | 64% | 91% |

**De-orllewin Cymru**

| | % da iawn yn gyffredinol | % wedi bodloni/ rhagori ar ddisgwyliadau |
|---|---|---|
| AB | 33% | 88% |
| WBL | 60% | 91% |
| ACL | 69% | 97% |

**De-ddwyrain Cymru**

| | % da iawn yn gyffredinol | % wedi bodloni/ rhagori ar ddisgwyliadau |
|---|---|---|
| AB | 34% | 88% |
| WBL | 59% | 87% |
| ACL | 55% | 94% |




Mae cylchoedd coch a gwyrdd wedi cael eu defnyddio i ddangos y rhanbarthau uchaf ac isaf o ran y ganran 'da iawn' yn gyffredinol ym mhob sector

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

Sylfaen: Gogledd Cymru (10,087); Canolbarth Cymru (1,438); De-orllewin Cymru (6,749); De-ddwyrain Cymru (16,152)

# 1. Barn gyffredinol a disgwyliadau – crynodeb 2




Sleid 24. Wrth sgorio gwahanol agweddau ar eu profiadau dysgu, mae dysgwyr yn teimlo’n **fwyaf cadarnhaol ynghylch addysgu a hyfforddi** (mae 53-61% yn dweud bod hyn yn ‘dda iawn’ ar draws y sectorau), ac yn lleiaf cadarnhaol ynghylch y wybodaeth a'r cyngor maent yn eu cael (38% sy'n dweud bod hyn yn ‘dda iawn’).

Sleid 25. Mae rhai o'r meysydd penodol sydd angen eu gwella yn cynnwys **y wybodaeth y mae dysgwyr yn ei chael am y dewisiadau sydd ar gael iddynt ar ddiwedd eu cwrs** (34% ddywedodd fod hyn yn ‘dda iawn’), rhoi **adborth** i ddysgwyr ynghylch beth sydd wedi digwydd ar ôl iddynt roi eu barn (31% ‘da iawn’) a chymorth i ddilyn **ffordd iach o fyw** (30% ‘da iawn’).

Sleid 25. Mae dysgwyr mewn addysg bellach yn gyson yn llai cadarnhaol na'u cyfoedion mewn dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion, a hynny mewn nifer o agweddau, yn bennaf yn eu hasesiad o 'help i ymgyfarwyddo' a 'parch gan staff'.

# Mae dysgwyr yn teimlo'n fwyaf cadarnhaol ynghylch addysgu a hyfforddi ac yn lleiaf cadarnhaol ynghylch gwybodaeth a chyngor

**% sy'n rhoi sgôr 'da iawn'**
***(gyda % sy'n rhoi sgôr 'da' i ddilyn)***




## 38% Gwybodaeth a Chyngor

- Mae 38% yn dweud bod y wybodaeth a'r cyngor maent yn 'dda iawn'.
- AB: 30%; WBL: 47%; ACL 47%; CiO 36%

## Addysgu a Hyfforddi* 53/61%

- Yn ôl 54% o ddysgwyr AB/ACL/CiO, mae'r addysg a'r hyfforddiant maent yn eu cael yn 'dda iawn' (AB: 45%; ACL: 69%; CiO: 68%)
- Mae 61% o ddysgwyr WBL yn dweud bod yr addysg a'r hyfforddiant maent yn eu cael yn dda iawn

## Ymatebolrwydd 44%

- Mae 44% yn dweud bod ymatebolrwydd i ddysgwyr yn 'dda iawn'. Mae hyn yn cynnwys pethau fel parch gan staff, gwrando ar farn y dysgwr a gweithredu ar hynny.
- AB: 34%; WBL: 54%; ACL: 55%; CiO: 50%

## 44% Iechyd a Lles**

- Mae 44% o ddysgwyr AB/WBL yn dweud bod y coleg yn 'dda iawn' o ran mesurau iechyd a lles allweddol – fel cadw dysgwyr yn ddiogel, rhoi cymorth i fyw'n iach a deall cefndiroedd gwahanol. (AB a WBL) AB: 39%; WBL: 55%
- Dim ond ynglŷn â chadw dysgwyr yn ddiogel yr holwyd dysgwyr ACL a CiO: ACL: 68% ' da iawn'; CiO: 65%


## 44% Help a Chefnogaeth

- Mae 44% yn dweud bod yr help a'r gefnogaeth maent yn eu cael yn 'dda iawn'.
- AB: 36%; WBL: 52%; ACL: 54%; CiO 49%

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898). Mae maint y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol ar gael yn yr atodiad. * Gofynnwyd gwahanol gwestiynau i ddysgwyr WBL o'u cymharu â dysgwyr AB/ACL/CiO. ** Dim ond C5a a ofynnwyd i ddysgwyr ACL a CiO, nid C5b na C5c.

# Mae dysgwyr yn y sectorau dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion yn gyson yn fwy cadarnhaol ynghylch eu profiad dysgu o'u cymharu â dysgwyr addysg bellach






Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898). Gellir gweld maint y sylfaen a'r testun llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad.

## 2. Deall y gwahaniaethau rhwng dysgwyr: *Canolbwyntio ar feysydd pwnc, amrywiaeth a chydraddoldeb*

Mae'r adran hon yn edrych ar yr amrywiaeth ym marn gwahanol grwpiau o ddysgwyr, yn benodol yn ôl ethnigrwydd, oedran, rhyw ac anabledd neu anhawster dysgu


# 2. Deall gwahaniaethau rhwng yr is-grwpiau – crynodeb 1

Mae nifer o batrymau cyson yn dod i'r amlwg wrth ganolbwyntio ar brofiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Sleid 28. Er bod proffil oedran y dysgwyr yn amrywio o un sector i'r llall, **mae'r gwahaniaeth mewn boddhad yn ôl oedran yn bodoli ar draws pob un o'r pedwar sector**. Mae'r sgôr ar gyfer profiad cyffredinol yn cynyddu gydag oedran, er enghraifft, mae gwahaniaeth o 30 pwynt canran rhwng y rheini o dan 19 oed sy'n dweud bod eu darparwr yn 'dda iawn' (35%) a'r rheini sy'n 65+ (65%) ac yn rhoi'r un ymateb (+26 pwynt canran mewn WBL, +17 mewn ACL, +32 mewn CiO a +27 mewn AB). Gwelir patrwm tebyg ar draws yr holl fesurau, yn ogystal â boddhad cyffredinol.

Sleid 29. Mae **dysgwyr sy'n ddynion yn llai cadarnhaol** na menywod ar y rhan fwyaf o fesurau o brofiad dysgu – yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag addysgu a hyfforddi.


# Mae'r sgôr ar gyfer profiad cyffredinol yn cynyddu gydag oed




Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# Mae dysgwyr sy'n fenywod yn fwy cadarnhaol na dynion, ond mae'r gwahaniaethau'n llai amlwg ar gyfer gwybodaeth, ymatebolrwydd a lles




Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898). Gellir gweld maint y sylfaen a'r testun llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad


Wrth ystyried ethnigrwydd ac anabledd:

Sleid 31. Dysgwyr **o gefndiroedd ethnig cymysg ac Asiaidd yw'r rhai lleiaf cadarnhaol** wrth ystyried nifer o agweddau – yn enwedig wrth roi barn ynghylch yr offer a ddarperir, cymorth ychwanegol, a chynnal diddordeb dysgwyr yn y cwrs.
Cymerodd 1,106 o ddysgwyr o gefndir Asiaidd a 748 o gefndir cymysg ran yn yr arolwg, gan gynrychioli tri y cant o'r ymatebion gyda'i gilydd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â chyfran y dysgwyr ar draws y sectorau AB, WBL ac ACL (7,345 Asiaidd – 3%; 2,635 cefndir Cymysg – 1%). Yn nata'r arolwg ac mewn data cenedlaethol, mae cyfran yr ymatebwyr o gefndir Asiaidd yn uwch yn y sectorau AB ac ACL o'u cymharu ag WBL.

Sleid 32. Mae dysgwyr sydd wedi dweud bod ganddynt **anhawster neu anabledd dysgu yn gyffredinol yn gadarnhaol**. Maent yn arbennig o gadarnhaol ynghylch darparu cymorth dysgu ychwanegol (46% 'da iawn' o'i gymharu â 39% o ddysgwyr heb anawsterau a/neu anabledd dysgu). Mae dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledd dysgu yn y sector WBL yn llai cadarnhaol wrth roi barn ynghylch y cymorth un-i-un a roddir (47% o'i gymharu â 60% o ddysgwyr heb anawsterau a/neu anabledd dysgu yn y sector WBL) a sicrhau bod hyfforddiant mewn WBL yn berthnasol iddyn nhw (52% o'i gymharu â 63%).
Dywedodd 5,486 o ddysgwyr (10%) yn yr arolwg fod ganddynt anhawster neu anabledd dysgu, sy'n uwch na'r hyn a gofnodwyd ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (4%). Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod hwn yn ddosbarthiad goddrychol a/neu gall cyflyrau pobl newid.

# Dysgwyr o gefndiroedd ethnig cymysg ac Asiaidd yw'r lleiaf cadarnhaol yn gyson







Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898). Gellir gweld maint y sylfaen a'r testun llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad

# Ceir mân wahaniaethau mewn barn rhwng dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu a dysgwyr heb anawsterau a/neu anableddau dysgu – mae hyn yn fwyaf amlwg o ran darparu cymorth penodol



% da iawn




Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,898). Gellir gweld maint y sylfaen a'r testun llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad

# 3. Crynodebau'r sectorau:

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar ganfyddiadau yn ôl sector (WBL, ACL, CiO ac AB).

Sleid 20. Mae dysgwyr WBL **ymhlith y rhai mwyaf cadarnhaol**. Yn gyffredinol, mae tri o bob pump yn disgrifio eu profiad fel un 'da iawn' (60%).
Fodd bynnag, ceir cryn dipyn o **amrywiaeth yn ôl darparwr**: yn amrywio o 84% i 41% yn dweud 'da iawn'. Mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg ym maes addysgu a hyfforddi (yr uchaf yw 81% 'da iawn', a'r isaf yw 39%) a gwybodaeth a chyngor (yr uchaf yw 71% ‘da iawn' a'r isaf yw 30%).

Sleid 25. Yn unol â sectorau eraill, mae dysgwyr WBL yn teimlo’n fwyaf cadarnhaol ynghylch **y parch a ddangosir gan staff** (mae 69% yn disgrifio hyn fel 'da iawn').
O'i gymharu â sectorau eraill, mae WBL hefyd yn perfformio'n arbennig o dda o ran y **wybodaeth** a ddarperir wrth ddewis cwrs (51% da iawn), darparu **cymorth gyda materion personol** (49%) a rhoi cyfle i ddysgwyr **roi eu barn** (49%).

Sleid 35. Yn ôl math o raglen WBL, dysgwyr sy'n ymgymryd â **Phrentisiaethau Sylfaen a Dysgu Hyblyg** yw'r rhai mwyaf cadarnhaol yn gyson; mae'r rheini sy'n dilyn Hyfforddeiaeth a'r rhaglen Camau at Waith yn llai tebygol o ddisgrifio eu profiad fel 'da iawn' ar draws ystod o fesurau.

# Cafodd Prentisiaethau Sylfaen a Dysgu Hyblyg sgoriau mwy cadarnhaol na Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith



## *Sgôr gyffredinol a sgôr gyfansawdd ar gyfer themâu allweddol*

| | C8. Sgôr gyffredinol | Gwybodaeth a Chyngor | Cymorth | Ymatebolrwydd | Iechyd a Lles | Addysgu a hyfforddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Pob dysgwr WBL % 'da iawn'*** | *60%* | *47%* | *52%* | *54%* | *55%* | *61%* |
| Prentisiaeth Sylfaen | 66% | 53% | 57% | 59% | 58% | 65% |
| Prentisiaeth | 61% | 49% | 54% | 56% | 56% | 63% |
| Prentisiaeth Uwch | 57% | 49% | 50% | 51% | 54% | 59% |
| Hyfforddeiaeth | 50% | 32% | 38% | 41% | 43% | 45% |
| Camau at Waith | 54% | 40% | 47% | 50% | 52% | 55% |
| Dysgu Hyblyg | 70% | 61% | 65% | 65% | 67% | 75% |
| Adeiladu Sgiliau | 66% | 57% | 54% | 53% | 50% | 59% |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Sylfaen: Pob dysgwr WBL (13,236)

Mae celloedd wedi'u lliwio'n wyrdd os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn uwch ac yn goch os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn is na’r cyfanswm ar gyfer WBL.

Sleid 20. Mae dysgwyr ACL hefyd **ymhlith y rhai mwyaf cadarnhaol** ar draws y sector addysg ôl-16. Yn yr un modd â WBL, mae tri o bob pump yn disgrifio eu profiad fel un 'da iawn' (60%).
Mae'r gwahaniaeth yn ôl darparwr yn fwyaf amlwg yn y sgôr ar gyfer profiad cyffredinol (sgôr uchaf o 72% 'da iawn' o'i gymharu â sgôr isaf o 35%), ac yn ansawdd yr addysg a'r hyfforddi (yr uchaf yn 83% 'da iawn', o'i gymharu â'r isaf sy'n 46%).

Sleid 25. Yn yr un modd â'r sectorau eraill, mae dysgwyr ACL yn fwyaf cadarnhaol ynghylch **parch a ddangosir gan staff** (mae 78% yn disgrifio hyn fel 'da iawn' ).
O'i gymharu â sectorau eraill, mae ACL yn perfformio'n arbennig o dda ar yr **help i ddysgwyr ymgyfarwyddo** (63% 'da iawn'), sicrhau bod dysgwyr yn **teimlo'n ddiogel** (68%), **esbonio gwaith** (72%) a **gwrando** ar ddysgwyr wrth addysgu (72%).

Sleid 37. Yn ôl Meysydd Pwnc Sector, dysgwyr ar gyrsiau **TGCh** ac **Addysg Sylfaenol i Oedolion** sydd fwyaf cadarnhaol ynghylch eu profiad. Mewn cyferbyniad, mae dysgwyr ar gyrsiau Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal ac Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant yn llai cadarnhaol yn gyson.

# Mae dysgwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned sy'n dilyn cyrsiau Iechyd ac Iaith yn lleiaf cadarnhaol ynghylch eu profiad – yn wahanol i TGCh ac Addysg Sylfaenol i Oedolion



## *Sgôr gyffredinol a sgôr gyfansawdd ar gyfer themâu allweddol*

| | C8. Sgôr gyffredinol | Gwybodaeth a Chyngor | Cymorth | Ymatebolrwydd | Iechyd a Lles | Addysgu a hyfforddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Pob dysgwr ACL % 'da iawn'*** | *60%* | *47%* | *54%* | *55%* | *68%* | *69%* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 42% | 27% | 43% | 42% | 52% | 54% |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 75% | 60% | 67% | 63% | 78% | 78% |
| Adwerthu a Mentrau Masnachol | 77% | 55% | 69% | 57% | 70% | 65% |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 56% | 35% | 45% | 56% | 62% | 67% |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 62% | 49% | 58% | 59% | 70% | 74% |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 58% | 48% | 47% | 51% | 71% | 67% |
| Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | 47% | 36% | 43% | 49% | 60% | 69% |
| Sgiliau Byw'n Annibynnol | 75% | 47% | 54% | 58% | 64% | 60% |
| Addysg Sylfaenol i Oedolion | 70% | 59% | 62% | 63% | 72% | 73% |
| Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill | 54% | 53% | 54% | 53% | 72% | 67% |
| Maes pwnc arall | 59% | 42% | 50% | 53% | 66% | 68% |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Sylfaen: pob dysgwr ACL (7,399)
Mae celloedd wedi'u lliwio'n wyrdd os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn uwch ac yn goch os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn is na'r cyfanswm ar gyfer ACL.

Sleid 20. Mae bron i **dri dysgwr o bob pump yn y maes Cymraeg i Oedolion yn disgrifio eu profiad fel un 'da iawn'** (56%). Fodd bynnag, ceir cryn dipyn o wahaniaeth yn ôl darparwr: y sgôr uchaf yw 84% 'da iawn'; 41% yw'r isaf.

Sleid 25. Barn dysgwyr Cymraeg i Oedolion sy'n **amrywio fwyaf** wrth ei chymharu â barn dysgwyr yn y sectorau eraill. Maent ymhlith y rhai mwyaf cadarnhaol ar gyfer agweddau ar **addysgu a hyfforddi**, yn enwedig o ran esbonio gwaith (mae 71% yn disgrifio hyn fel 'da iawn') a chael eu trin yn deg a chyda pharch (84% da iawn). Mewn cyferbyniad, maent ymhlith y lleiaf cadarnhaol o ran **y wybodaeth a roddwyd am opsiynau** ar ôl y cwrs (31% 'da iawn') ac **adborth** yn sgil barn dysgwyr (24% 'da iawn').

Sleid 39. Mae ansawdd y wybodaeth a'r cyngor yn cael sgôr uwch gan ddysgwyr sy'n dilyn **cyrsiau lefel uwch** (Uwch a Medrusrwydd). Mae'r gyfran sy'n disgrifio'r addysgu a'r hyfforddi fel 'da iawn' ar ei isaf ar gyfer y rheini ar gyrsiau Canolradd.

# Mae'r sgôr ar gyfer gwybodaeth a chyngor yn gymharol isel – yn enwedig ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau nad ydynt ar lefel uwch



## *Sgôr gyffredinol a sgôr gyfansawdd ar gyfer themâu allweddol*

| | C8. Sgôr gyffredinol | Gwybodaeth a Chyngor | Cymorth | Ymatebolrwydd | Iechyd a Lles | Addysgu a hyfforddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***POB dysgwr CiO % 'da iawn'*** | *67%* | *36%* | *49%* | *50%* | *65%* | *68%* |
| Lefel derbyn | 77% | 33% | 50% | 52% | 67% | 71% |
| Lefel sylfaenol | 45% | 30% | 47% | 48% | 62% | 70% |
| Lefel ganolradd | 60% | 39% | 45% | 45% | 60% | 63% |
| Lefel uwch | 72% | 45% | 55% | 55% | 69% | 65% |
| Lefel medrusrwydd | 60% | 56% | 58% | 61% | 83% | 72% |
| Lefel arall* | 58% | 46% | 46% | 52% | 56% | 62% |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Sylfaen: Pob dysgwr CiO (1,815) *mae'n dynodi'r maint sylfaen isaf ar gyfer 'lefel arall': 22. Mae celloedd wedi'u lliwio'n wyrdd os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn uwch ac yn goch os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn is na'r cyfanswm ar gyfer CiO.

# 3. Crynodebau'r sectorau – Addysg bellach

Sleid 20. Yn gyffredinol, mae bron i **ddau ddysgwr o bob pump** mewn addysg bellach yn disgrifio eu darparwr fel un 'da iawn' (37%), sy'n is na'r ganran mewn sectorau eraill (60% WBL, 60% ACL a 56% CiO). Fodd bynnag, ceir cryn dipyn o wahaniaeth o un darparwr i'r llall (44% - 25% 'da iawn') ac mae nifer o ddarparwyr AB yn perfformio'n well na rhai sefydliadau WBL, ACL a CiO. Gwelir y patrwm hwn ar draws y rhan fwyaf o'r mesurau yn holiadur Llais y Dysgwr Cymru, ac felly anogir rhagor o waith i ystyried a yw'r gwahaniaeth yn un 'go iawn' ynteu a oes ffactorau eraill yn ei egluro.

Sleid 41 a 28. Un eglurhad posibl am sgoriau is mewn AB yw bod y sector hwn yn cynnwys **cyfran uwch o ddysgwyr ifanc,** sy'n gyffredinol yn llai cadarnhaol. Fodd bynnag, mae dysgwyr iau mewn AB yn llai cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr o'r un oed mewn sectorau eraill (30% 'da iawn' ymhlith pobl ifanc dan 19 oed mewn AB; 50% ymhlith pobl ifanc dan 19 oed yn y sector WBL; 49% ymhlith pobl ifanc dan 19 oed yn y sector ACL).

Sleid 56. Mae'n bosibl bod sgôr is mewn boddhad cyffredinol hefyd yn gysylltiedig â **'lleoliad'** yr addysg bellach. Mae dysgwyr AB yn nodi 'cyfleusterau' a 'bwyd' fel meysydd allweddol ar gyfer gwella i'w darparwr – meysydd nad ydynt mor berthnasol i sectorau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn yn esbonio'r amrywiaeth mewn mesurau eraill.

Sleid 42. Esboniad posib arall yw bod gan ddysgwyr mewn AB **gymhelliannau a disgwyliadau gwahanol a/neu uwch ar gyfer dysgu** o'u cymharu â dysgwyr mewn sectorau eraill. Nid yw'n glir wrth edrych ar y data pam mae hyn yn wir; byddai modd ychwanegu cwestiynau cyd-destunol at arolygon yn y dyfodol i edrych ar y mater hwn ymhellach.

Sleid 43. Dysgwyr sy'n dilyn **cyrsiau TGCh yw'r rhai mwyaf cadarnhaol** ynghylch eu darparwr. Mewn cyferbyniad i hyn, dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau mewn gwyddoniaeth a mathemateg, gwyddorau cymdeithasol a'r celfyddydau yw'r rhai lleiaf cadarnhaol.

# Nid yw ffactorau demograffig ar eu pen eu hunain yn esbonio'r lefel is o foddhad yn y sector addysg bellach



| | | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 47% | 47% | 31% | 34% |
| | Benyw | 53% | 53% | 69% | 65% |
| Ethnigrwydd | Gwyn | 94% | 96% | 92% | 94% |
| | Du | 0.6% | 0.5% | 1.2% | 0.2% |
| | Asiaidd | 1.2% | 0.8% | 2.2% | 0.9% |
| | Cymysg | 0.6% | 0.4% | 0.6% | 0.7% |
| | Arall | 0.4% | 0.3% | 1.5% | 0.9% |
| Oedran | Dan 19 | 50% | 27% | 6% | 2% |
| | 19-24 | 19% | 28% | 8% | 7% |
| | 25-34 | 15% | 19% | 17% | 16% |
| | 35-44 | 8% | 12% | 16% | 20% |
| | 45-54 | 5% | 9% | 16% | 17% |
| | 55-64 | 2% | 3% | 17% | 20% |
| | 65+ | 1% | * | 19% | 17% |

Cynhaliwyd gwaith dadansoddi er mwyn cael gwybod a yw'r ffactorau demograffig a esboniwyd ym Mhennod 2 wedi achosi lefel is o foddhad i'r dysgwyr mewn AB. Mae dysgwyr iau, dynion a phobl o gefndir Asiaidd neu o gefndir ethnig cymysg yn llai tebygol o fod yn gadarnhaol am eu profiad dysgu.

Fel y gwelir yma, nid gan AB y mae'r gyfran uchaf o ddysgwyr sy'n ddynion na'r rheini o gefndir Asiaidd a chefndir ethnig cymysg, ond mae gan AB gyfran dipyn uwch o ddysgwyr iau. Nid yw hyn ynddo'i hun yn esbonio'r lefel isel o foddhad mewn AB; mae sleid 28 yn dangos bod dysgwyr iau mewn AB yn llai cadarnhaol na'u cyfoedion mewn sectorau eraill.

## Mae'r data'n amhendant o ran a yw'r sgoriau is mewn addysg bellach yn cael eu hysgogi gan wahanol ddisgwyliadau neu gymhelliant i ddysgu



| *Barn ynghylch profiad cyffredinol o'i gymharu â disgwyliadau* | **Gwell na'r disgwyl** | **Yr hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl** | **Gwaeth na'r disgwyl** | **Doedd gen i ddim disgwyliadau** |
|---|---|---|---|---|
| Da iawn | 71% | 37% | 6% (142) | 25% |
| Da | 25% | 47% | 24% (547) | 39% |
| Eithaf da | 3% | 14% | 42% | 26% |
| Eithaf gwael | - | 1% | 15% | 4% |
| Gwael | - | - | 8% | 1% |
| Gwael iawn | - | - | 4% | 1% |

Mae'r data'n gyfyngedig o ran deall disgwyliadau'r dysgwyr. Mae'n bosibl adnabod canran fach o ddysgwyr sydd o'r farn bod eu darparwr yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ond sydd wedi dweud bod eu cwrs yn waeth na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae cyfran is o ddysgwyr o'r fath yn y sector CiO (23%) ac AB (28%) o'u cymharu â WBL (38%), ac ACL (36%).

Yn y dyfodol, efallai y gall cynnwys nifer bach o gwestiynau am ddisgwyliadau a chymhellion dros ddysgu helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng AB a sectorau eraill.

# Mae dysgwyr ar gwrs TGCh yn gyson yn fwy cadarnhaol; mae ‘addysgu a hyfforddi’ hefyd yn arbennig o uchel ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

## *Sgôr gyffredinol a sgôr gyfansawdd ar gyfer themâu allweddol*

| | C8. Sgôr gyffredinol | Gwybodaeth a Chyngor | Cymorth | Ymatebolrwydd | Iechyd a Lles | Addysgu a hyfforddi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Pob Dysgwr AB % ‘da iawn’*** | *37%* | *30%* | *36%* | *34%* | *39%* | *45%* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 38% | 34% | 39% | 36% | 44% | 46% |
| Gwyddoniaeth a Mathemateg | 35% | 26% | 32% | 30% | 35% | 47% |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofalu am Anifeiliaid | 27% | 28% | 35% | 27% | 31% | 40% |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 35% | 32% | 36% | 34% | 38% | 46% |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 33% | 27% | 34% | 34% | 35% | 45% |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 43% | 36% | 44% | 39% | 44% | 50% |
| Adwerthu a Mentrau Masnachol | 37% | 33% | 41% | 36% | 42% | 46% |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 34% | 31% | 35% | 31% | 40% | 42% |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 33% | 27% | 34% | 31% | 36% | 44% |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 30% | 23% | 29% | 28% | 31% | 38% |
| Y Gwyddorau Cymdeithasol | 33% | 21% | 26% | 28% | 30% | 45% |
| Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | 34% | 31% | 33% | 31% | 39% | 51% |
| Addysg a Hyfforddiant | 53% | 34% | 42% | 40% | 44% | 61% |
| Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | 39% | 32% | 39% | 36% | 41% | 45% |
| Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | 35% | 28% | 35% | 36% | 39% | 49% |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14[eg] – Chwefror 23[ain] 2013. Sylfaen: Pob dysgwr AB: (31,808)

Mae celloedd wedi'u lliwio'n wyrdd os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn uwch ac yn goch os yw'r sgôr yn fwy na 5 pwynt canran yn is na’r cyfanswm ar gyfer AB.

## 4. Edrych ar agweddau at y profiad cyffredinol

Mae'r adran hon yn edrych ar ganfyddiadau'r Dadansoddiad o’r Prif Ysgogwyr (KDA) ac atebion air am air y dysgwyr i geisio deall y ffactorau sy'n ysgogi barn gyffredinol y dysgwyr am eu darparwr. Mae mwy o fanylion am y KDA yn yr atodiad.

# 4. Edrych ar agweddau at y profiad cyffredinol – crynodeb 1


Cynhaliwyd y Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr (KDA) ar y cwestiwn "Rhowch farn ar eich coleg/darparwr yn gyffredinol". Cynhaliwyd y dadansoddiad ar 33,534 o atebion, gan ddileu yr atebion 'ddim yn berthnasol i mi' lle bo'n berthnasol er mwyn edrych ar ysgogwyr atebion dilys. Mae mwy o fanylion am y KDA a gynhaliwyd yn yr atodiad.

Sleid 46. Mae'r KDA yn dangos bod 64% o'r gwahaniaeth ym marn gyffredinol y dysgwyr yn cael ei esbonio gan dair agwedd: **help a chefnogaeth, addysgu a hyfforddi, a gwybodaeth a chyngor**, gan olygu mai'r rhain yw'r meysydd y dylai darparwyr flaenoriaethu eu hymdrechion i'w gwella. Mae iechyd a lles, parch gan staff a'r cyfle i roi a derbyn adborth ar farn yn parhau i fod yn elfennau pwysig sy'n ysgogi barn gadarnhaol, ond nid ydynt mor bwysig.

Sleid 47. Wrth edrych yn fwy manwl ar y mesurau penodol a gafodd eu cynnwys yn y tri phrif ysgogwr, gwelir bod **cymorth penodol/ychwanegol a rhyngweithio rhwng athrawon** ac unigolion yn feysydd allweddol i'w gwella.
Derbyniodd nifer o gwestiynau'n ymwneud â help a chefnogaeth nifer uchel o atebion 'ddim yn berthnasol i mi', yn enwedig ar gyfer cwestiynau am gymorth gyda materion personol a chymorth dysgu ychwanegol. Mae hyn yn awgrymu bod help a chefnogaeth, pan fydd dysgwyr yn teimlo bod hynny'n berthnasol iddynt hwy, yn ysgogwr arbennig o arwyddocaol o'i gymharu ag elfennau eraill o'u profiad.


Sleidiau 48 - 50. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r ymatebion agored a roddwyd gan ddysgwyr am yr hyn yr oeddent yn ei hoffi fwyaf am eu darparwr (staff a gofal bugeiliol) a'u hawgrymiadau am well gwybodaeth fel maes i'w wella.

# Help a chefnogaeth, addysgu a hyfforddi, a gwybodaeth a chyngor yw'r ysgogwyr cryfaf ar gyfer barn ar y darparwr yn gyffredinol




Sylfaen (33,534). Lleihawyd nifer yr ysgogwyr drwy ddefnyddio proses dadansoddi ffactorau. Defnyddiwyd atchweliad llinellol. Mae mwy o wybodaeth i'w chael yn yr atodiad.

# Canfu'r KDA fod rhyngweithio rhwng athrawon ac unigolion a chymorth penodol/ychwanegol yn feysydd allweddol i'w gwella




| Y 3 prif ysgogwr – Addysgu a hyfforddi | |
|---|---|
| 1 | Esbonio'r gwaith y mae'n rhaid i chi ei wneud |
| 2 | Gwrando arnoch chi |
| 3 | Rhoi adborth i chi ar sut i wella |

| Y 3 prif ysgogwr – Help a Chefnogaeth | |
|---|---|
| 1 | Gwasanaeth cymorth dysgu ychwanegol |
| 2 | Rhoi gwybod ble i fynd i gael cymorth |
| 3 | Help a chefnogaeth benodol |

# Cafodd addysgu, staff a gofal bugeiliol eu henwi gan ddysgwyr yn ddigymell fel yr agweddau yr oeddent yn eu hoffi fwyaf...

## *Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y coleg/darparwr hwn?*




Sylfaen: Pob ymateb i gwestiwn 10 (30,638). Mae’r cymylau geiriau wedi’u creu o sylwadau air am air sydd wedi’u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi’u cyfieithu i’r Gymraeg.

# Mae cymorth, ac addysgu a hyfforddi, yn bwysig i ddysgwyr ar draws pob sector...

## *Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y coleg/darparwr hwn?*

***Friendly, but structured course with lots of practical advice along the way.***

(Dysgwr ACL yn astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, gwryw, 65+, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***I like the way they gave me time and listen to what I want to do with my life and what career I want to choose.***

(Dysgwr WBL, ar hyfforddeiaeth, gwryw, dan 19, BME, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu)

***I'm very much inspired by the teachers, teaching style, attitude and feedback.***

(Dysgwr AB, Lefel 2, gwryw, 35-44, BME, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***Support that the college provides, both academic and with things like work load and time management.***

(Dysgwr AB, Lefel 3, benyw, 19-24, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***I enjoy the slight lack of formality and how friendly and approachable the staff are.***

(Dysgwr AB, Lefel 2, benyw, 19-24, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***Guided tuition : the ability for me to work alone, setting my own goals, but with the necessary backup when needed.***

(Dysgwr ACL, gwryw, 55-64, BME, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu)

Sylfaen: Pob ymateb i gwestiwn 10 (30,638)

# ...tra mae gwybodaeth a chyngor ymhlith y meysydd allweddol i'w gwella

## *Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*

***The information relating to grants such as Assembly Learning Grant.***

(Dysgwr AB, Lefel 3, gwryw, 19-24, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***Information to help plan placements in advance better.***

(Dysgwr ACL, benyw, 45-54, gwyn, anawsterau a/neu anableddau dysgu)

***… More information provided about things coming up in my course.***

(Dysgwr AB, Lefel 1, gwryw, dan 19, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***The careers advice when you are applying for courses.***

(Dysgwr AB, Lefel 3, gwryw, dan 19, gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu).

***More information on how to progress into future employment. There doesn't seem too be a clear path for students to move forward, either in further education or employment.***

(Dysgwr AB, Lefel 1, gwryw, 35-44, Gwyn)


Sylfaen: Pob ymateb i gwestiwn 10 (30,638)

Sleid 52. Mae edrych ar farn y dysgwyr am y tri dimensiwn hyn yn dangos bod **help a chefnogaeth** – darparu cymorth dysgu penodol/ychwanegol a gwybodaeth am ble i fynd i gael help – **yn flaenoriaethau allweddol i'w gwella**. Hwn yw'r ysgogwr cryfaf o farn gyffredinol y dysgwyr er mai dim ond 44% sy'n ei ddisgrifio fel 'da iawn'.

Sleid 52. **Mae gwybodaeth a chyngor yn faes blaenoriaeth allweddol arall i'w wella**. Hwn yw'r trydydd ysgogwr cryfaf o farn gyffredinol y dysgwyr er mai dim ond 38% sy'n ei ddisgrifio fel 'da iawn'.

# Mae help a chefnogaeth, a gwybodaeth a chyngor, yn brif ysgogwyr o brofiad dysgwr sydd angen ei wella





# 4. Edrych ar agweddau at y profiad cyffredinol – crynodeb 3

Sleid 54. Pan ofynnwyd beth fyddent yn ei wella, crybwyllwyd cyfleusterau yn ddigymell gan y dysgwyr (*e.e*. 'offer', 'ffreutur', 'bwyd', 'llyfrgell', 'cyfrifiaduron', 'parcio') a'r ffordd y caiff y dysgu ei gyflwyno (*e.e.* 'amser', 'egwyliau', 'cyrsiau', 'gwersi' 'aseiniadau').

Sleid 55. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ymhlith dysgwyr a oedd yn dweud bod eu darparwr yn 'eithaf gwael, gwael, gwael iawn' **yn llawn teimladau negyddol yn gyffredinol** – roedd y dysgwyr hyn yn aml yn awgrymu bod angen gwella 'popeth'.


Sleid 56. Mae awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn ôl sector yn dangos mai dysgwyr mewn WBL ac ACL fyddai'n fwyaf hoff o weld gwelliannau i drefniadau amser a gwaith. Mae dysgwyr CiO yn nodi gwelliannau sy'n ymwneud yn benodol â'u cwrs, a dysgwyr AB yn canolbwyntio'n bennaf ar welliannau i gyfleusterau.

# Bu’r dysgwyr hefyd yn nodi cyfleusterau penodol i'w gwella yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffordd mae'r dysgu'n cael ei drefnu

## *Beth, os unrhyw beth, fyddech chi’n ei wella?*

*“Information about courses earlier so that there's enough time to arrange working provisions/childcare etc.”*

(Dysgwr CiO, Lefel Sylfaen, benyw, 35-44, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu)




*“Sports hall need to be fixed. New equipment in the gym….Also bigger classrooms.”*

(Dysgwr AB, Lefel 2, gwrywaidd, dan 19, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu)

Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36,492). Mae’r cymylau geiriau wedi’u creu o sylwadau air am air sydd wedi’u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi’u cyfieithu i’r Gymraeg.

# Mae'r rhai sydd leiaf cadarnhaol am eu profiad o ddysgu yn debygol o fod yn negyddol am 'bopeth' yn hytrach nag am bethau penodol

**Yn seiliedig ar ymatebion y rhai ddywedodd fod eu cwrs yn gyffredinol yn 'eithaf gwael/gwael/gwael iawn', pan ofynnwyd *'Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?'***




*gan ddileu 'popeth' o'r sampl o frawddegau gair am air*

*"Food prices"*

(Dysgwr AB, Lefel 3, benyw, 19-24, Gwyn, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu)

*"Healthier food in the canteen"*

(Dysgwr AB, Lefel 2, gwryw, dan 19, dim anawsterau a/neu anableddau dysgu






Sylfaen: Pob dysgwr sy'n disgrifio ei gwrs fel 'eithaf gwael/gwael/gwael iawn' yng nghwestiwn 8. Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.


# Mae meysydd i'w gwella yn amrywio yn ôl sector, gyda nifer o'r rhai yn y sectorau dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned yn dweud nad oes unrhyw beth y byddent yn ei wella




*Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*




Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36,492). Mae modd dod o hyd i waith graffeg mwy o'r cymylau geiriau yn ôl sector yn yr atodiad. Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

# 5. Help a Chefnogaeth

Mae'r adran hon yn edrych ar gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â help a chefnogaeth – un o'r prif ysgogwyr wrth roi barn ynghylch y profiad yn gyffredinol.

# 5. Help a Chefnogaeth – crynodeb




*Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys yr ymateb ‘ddim yn berthnasol i mi’ o'r cwestiynau ‘help a chefnogaeth’. Felly, dim ond ar y rhai sy'n rhoi barn neu'n datgan ‘ddim yn gwybod’ y mae'r canrannau sy'n cael eu dyfynnu yn seiliedig.*

| | |
|---|---|
| Sleid 46 a 24. | Mae'r KDA yn dangos mai ‘help a chefnogaeth’ yw'r **ffactor pwysicaf o ran ysgogi barn gyffredinol y dysgwyr am eu darparwr**: dywedodd 44% fod yr help a'r gefnogaeth a gânt yn ‘dda iawn’; gyda 37% pellach yn dweud 'da'. |
| Sleid 47 a 59. | Y ffactor pwysicaf o ran siapio agweddau tuag at ‘help a chefnogaeth’ yw'r **cymorth dysgu ychwanegol a ddarperir** (fel ar gyfer darllen, ysgrifennu neu fathemateg). Fodd bynnag, mae'r dysgwyr yn lleiaf cadarnhaol am hyn – dim ond dau o bob pump sy'n dweud ei fod yn ‘dda iawn’ (40%), o'i gymharu â'r hanner sy'n dweud bod yr help a gawsant wrth ymgyfarwyddo yn ‘dda iawn’ (51%), sy'n ysgogwr llai pwysig ar gyfer boddhad cyffredinol. |
| Sleid 59. | Mae **gwybod lle i fynd i gael cymorth** – hyd yn oed os nad oes ei angen ar y pryd – hefyd yn bwysig i ddysgwyr. Hwn yw ail ysgogwr cryfaf y profiad yn gyffredinol. Mae dau o bob pump dysgwr yn dweud bod eu darparwr yn ‘dda iawn’ am ddarparu'r wybodaeth hon (41%). |
| Sleid 59. | **Mae dysgwyr AB yn llai cadarnhaol** na'u cyfoedion ar y mesurau hyn, lle bo dysgwyr mewn ACL yn neilltuol o gadarnhaol ynghylch yr help a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn. |
| Sleidiau 59 - 61. | Mae'r canfyddiadau’n dangos bod angen darparu gwell cymorth i ddysgwyr iau a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mewn gwrthgyferbyniad, **mae dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn neilltuol o gadarnhaol** am y cymorth ychwanegol y maent wedi'i dderbyn (dywedodd 46% ei fod yn ‘dda iawn’ o'i gymharu â 40% yn gyffredinol). |

# Mae yna le i wella cymorth gyda materion personol a'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth dysgu ychwanegol

## Rhowch farn ar eich coleg o ran pob un o'r canlynol...




### Meincnod % 'da iawn'


| Pob darparwr | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|
| 51 | 41 | 59 | 63 | 59 |
| 45 | 35 | 54 | 56 | 50 |
| 45 | 36 | 52 | 57 | 53 |
| 41 | 35 | 50 | 47 | 44 |
| 41 | 35 | 49 | 48 | 45 |
| 40 | 33 | 48 | 47 | 41 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes 14eg Ionawr – 23ain Chwefror 2013. Mae modd dod o hyd i faint y sylfaen a thestun y cwestiwn yn llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart.

# Mae hon yn sialens arbennig mewn addysg bellach, lle dywedodd traean yn unig fod y cymorth dysgu ychwanegol yn 'dda iawn'

## *Rhowch farn ar … Darparu cymorth dysgu ychwanegol.*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 33 | 34 | 33 | 48 | 47 | 41 |

Y sgôr 'da iawn' isaf ar gyfer y sector **AB** ar draws pob cwestiwn am gymorth.

Yn gadarnhaol, dywedodd 46% o'r rhai gydag anhawster neu anabledd dysgu fod y cymorth dysgu ychwanegol yr oeddent wedi'i dderbyn yn 'dda iawn'.


Dywedodd 13,553 o ddysgwyr ar draws pob sector '**ddim yn berthnasol i mi**'. Tynnwyd yr ymatebion hyn o'r sylfaen er mwyn gallu cymharu % 'da iawn' yn well rhwng y rheini sy'n rhoi ymateb dilys.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (42,874)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# Mae patrwm tebyg wedi'i ddarganfod ar gyfer darparu gwybodaeth i ddysgwyr ynghylch ble i fynd i gael cymorth – dywedodd 41% fod hyn yn dda iawn

*Rhowch farn ar ... Rhoi gwybod ble i fynd i gael cymorth.*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 35 | 35 | 34 | 50 | 47 | 44 |

Unwaith eto, menywod a dysgwyr hŷn sydd fwyaf cadarnhaol. Mewn cyferbyniad, mae dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig Cymysg yn llai tebygol o ddweud bod eu darparwr yn 'dda iawn' yn y mesur hwn.

Dywedodd 3,119 o ddysgwyr '**ddim yn berthnasol i mi**'. Unwaith eto, tynnwyd yr ymatebion hyn o'r sylfaen er mwyn gallu cymharu % 'da iawn' yn well rhwng y rheini sy'n rhoi ymateb dilys.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (51,508)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# 6. Addysgu a hyfforddi


Mae'r adran hon yn edrych ar gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol ag addysgu a hyfforddi – prif ysgogwr a maes sy'n cael ei sgorio'n uchel gan ddysgwyr.

# 6. Addysgu a hyfforddi – crynodeb

| | |
|---|---|
| Sleid 46 a 24. | Addysgu a hyfforddi yw'r **ail ysgogwr pwysicaf** o'r farn gyffredinol am ddarparwyr a'r **prif faes o ran perfformiad** yn ôl dysgwyr: Dywedodd 53% o ddysgwyr AB, ACL a CiO, a 61% o ddysgwyr yn y sector WBL fod yr addysg a'r hyfforddiant yr oeddent yn ei gael yn 'dda iawn'. |
| Sleidiau 63 - 64. | Yn benodol, mae gwella **cyfathrebu dwy ffordd rhwng athrawon/hyfforddwyr a dysgwyr yn allweddol** (er enghraifft 'esbonio' a 'gwrando') gan fod y farn ynghylch hyn yn llai cadarnhaol o'i chymharu â mesurau eraill yn yr arolwg. |
| Sleid 66. | Mae'r sector AB yn derbyn sgôr neilltuol o isel ar gyfer **sicrhau nad oes dim yn tarfu ar waith y dysgwyr**, a hwn yw'r ysgogwr mwyaf gwan o ran y farn gyffredinol o fewn y thema hon. Mae hwn yn fater penodol ar gyfer dysgwyr iau – dywedodd 29% o'r rheini o dan 19 oed ei fod yn 'dda iawn' o'i gymharu â 44% yn gyffredinol. |
| Sleidiau 64 - 66. | Yn yr un modd ag adrannau eraill o'r arolwg, mae dysgwyr mewn AB, grwpiau oedran iau, dynion a rhai o gefndir Asiaidd neu ethnig cymysg yn llai tebygol o ddweud bod yr addysgu a'r hyfforddi yn 'dda iawn'. |

# Mae dysgwyr yn gadarnhaol ynghylch sgiliau'r staff addysgu ond mae pryder ar draws pob sector ynghylch pethau'n tarfu arnynt wrth weithio

## Rhowch farn ar eich athrawon a thiwtoriaid o ran pob un o'r canlynol...




### Meincnod % 'da iawn'

| Pob darparwr | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|
| 63 | 53 | 70 | 78 | 84 |
| 57 | 47 | 64 | 72 | 71 |
| 56 | 46 | 63 | 72 | 69 |
| 56 | 46 | 61 | 71 | 76 |
| 56 | 49 | 61 | 68 | 65 |
| 53 | 43 | - | 74 | 74 |
| 53 | 46 | 61 | 66 | 58 |
| 44 | 35 | 49 | 60 | 55 |
| - | - | 62 | - | - |
| - | - | 59 | - | - |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes 14eg Ionawr – 23ain Chwefror 2013. Mae modd dod o hyd i faint y sylfaen a thestun y cwestiwn yn llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart. Ni ofynnwyd y cwestiwn 'cynnal eich diddordeb' i ddysgwyr WBL, ond gofynnwyd iddynt roi sylw ar 'hyfforddiant yn berthnasol' a chael 'digon o amser un-i-un' – ni chafodd y ddau gwestiwn diwethaf eu cynnwys yn y KDA.


# Mae tri dysgwr o bob pump yn dweud bod eu darparwr yn dda iawn am esbonio eu gwaith, gan godi i saith o bob deg ar gyfer dysgwyr hŷn

## *Rhowch farn ar... Esbonio'r gwaith y mae'n rhaid i chi ei wneud*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 47 | 44 | 50 | 64 | 72 | 71 |





Yn yr un modd ag adrannau eraill o'r arolwg, mae dysgwyr mewn AB, grwpiau oedran iau, dynion a rhai o gefndir Asiaidd neu Ethnig cymysg yn llai tebygol o ddweud bod eu darparwr yn 'dda iawn' o ran y mesur hwn.

Sylfaen: pob cwrs (65,793)
Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14[eg] – Chwefror 23[ain] 2013.

# Mewn cyferbyniad, dywedodd llai na hanner y dysgwyr fod eu darparwr yn ‘dda iawn’ am sicrhau nad oes dim yn tarfu ar eu gwaith – sialens benodol yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith




## *Rhowch farn ar... Sicrhau nad yw dysgwyr eraill yn tarfu ar eich gwaith*




Dadansoddiad fesul sector: % da iawn

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 35 | 32 | 39 | 49 | 60 | 55 |




Mae dysgwyr dan 19 oed gryn dipyn yn llai tebygol o ddweud bod eu darparwr yn ‘dda iawn’ o ran y mesur hwn – 29% o'i gymharu â chyfartaledd o 45% o ddysgwyr yn gyffredinol.

O bob mesur sy'n gysylltiedig ag ‘addysgu a hyfforddi’, dysgwyr WBL yw'r rhai lleiaf cadarnhaol o ran sicrhau nad oes dim yn tarfu arnynt wrth weithio.

Sylfaen: pob cwrs (65610)
Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# 7. Gwybodaeth a chyngor

Mae'r adran hon yn edrych ar gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â gwybodaeth a chyngor – y trydydd prif ysgogwr o ran sgorio'r profiad yn gyffredinol.

# 7. Gwybodaeth a chyngor – crynodeb




*Nid yw'r ymateb 'ddim yn berthnasol i mi' wedi'i gynnwys yn sylfaen y cwestiynau yn yr adran hon er mwyn gallu cymharu % 'da iawn' yn well rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Mae'r canrannau, felly, wedi'u seilio ar bawb yn rhoi barn (da iawn – gwael iawn) neu'n datgan 'ddim yn gwybod'.*

| | |
|---|---|
| Sleid 46 a 24. | Y wybodaeth a'r cyngor y mae'r dysgwyr yn eu cael yw'r trydydd ysgogwr cryfaf o'r farn gyffredinol am ddarparwyr, ond hwn hefyd yw'r maes sydd â'r perfformiad isaf – dim ond 38% o'r dysgwyr ddywedodd ei fod yn 'dda iawn'. |
| Sleidiau 69 – 70. | Er bod dau ddysgwr o bob pump yn dweud bod y wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn wrth **ddewis cwrs** yn 'dda iawn' (41%), dim ond un o bob tri (34%) ddywedodd fod y wybodaeth am **ddewisiadau ar gyfer y dyfodol** ar ôl y cwrs yn 'dda iawn'. |
| Sleid 69. | Mae hon yn sialens benodol ar gyfer AB a CiO lle dywedodd 26% a 31% o ddysgwyr, yn y drefn honno, ei fod yn 'dda iawn'. |

# Mae dysgwyr yn lleiaf cadarnhaol ynghylch y wybodaeth sy'n cael ei chynnig gan eu darparwr am y dewisiadau sydd ar gael ar ôl cwblhau'r cwrs

## Rhowch farn ar bob un o'r canlynol...





### Meincnod % 'da iawn'


| Pob darparwr | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|
| 41 | 34 | 51 | 50 | 39 |
| 34 | 26 | 44 | 44 | 31 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes 14[eg] Ionawr – 23[ain] Chwefror 2013. Mae modd dod o hyd i faint y sylfaen a thestun y cwestiwn yn llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart.

# Mae gwybodaeth am ddewisiadau ar gyfer y dyfodol yn faes sydd angen ei wella ar gyfer dysgwyr addysg bellach (amser llawn a rhan-amser) ac ar gyfer dysgwyr Cymraeg i Oedolion

## *Rhowch farn ar... Y wybodaeth a gynigwyd i chi am ddewisiadau sydd ar gael ar ôl cwblhau eich cwrs*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 26 | 26 | 27 | 44 | 44 | 31 |

Mae dysgwyr 50+ oed ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud bod y wybodaeth a gawsant yn 'dda iawn' o'u cymharu â'r rheini dan 19 oed.

Mae'r rhai o gefndir Du a chefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig 'eraill' yn amlwg yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (50,108)
Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# 8. Iechyd a Lles

Mae'r adran hon yn edrych ar gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a lles – gan gynnwys y teimlad o ddiogelwch, cydlyniad a chefnogi byw'n iach.


# 8. Iechyd a Lles – crynodeb

*Nid yw'r ymateb 'ddim yn berthnasol i mi' wedi'i gynnwys yn sylfaen y cwestiynau yn yr adran hon. Felly, mae'r canrannau wedi'u seilio ar bawb yn rhoi barn (da iawn – gwael iawn) neu'n datgan 'ddim yn gwybod'. Dylid nodi hefyd mai dim ond i ddysgwyr AB a WBL y gofynnwyd C5b a C5c.*

| | |
|---|---|
| Sleid 73. | Mae bron i dri dysgwr o bob pump yn teimlo bod eu **darparwr yn dda iawn am eu cadw'n ddiogel** (57%), ond maent yn llai cadarnhaol wrth asesu sut mae'r darparwyr yn eu helpu i ddeall pobl o gefndiroedd gwahanol (44% 'da iawn') neu'n hybu byw'n iach (30% 'da iawn'). |
| Sleid 73 a 75. | Dywedodd mwy nag un dysgwr o bob saith fod eu darparwr yn **'eithaf gwael-gwael iawn' am hybu ffordd iach o fyw** (14%) – yr ymateb negyddol uchaf ar draws yr arolwg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn AB, ymysg dysgwyr iau a rhai o gefndiroedd ethnig cymysg. |
| Sleidiau 73 - 75. | Wrth symud ymlaen, mae angen gwell dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r dysgwyr o ran swyddogaeth y darparwyr mewn perthynas ag iechyd a lles gan fod nifer fawr o ddysgwyr (8,151) yn teimlo nad yw'r cwestiynau hyn yn berthnasol iddynt hwy. Hefyd, roedd 4,088 o ddysgwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi barn ynghylch eu darparwr o ran helpu dysgwyr i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |

# Mae dysgwyr yn credu bod darparwyr yn well am sicrhau eu bod yn ddiogel nac am eu helpu i ddeall gwahanol gefndiroedd a mabwysiadu ffordd iach o fyw

## Rhowch farn ar eich coleg o ran pob un o'r canlynol...




**Meincnod % 'da iawn'**

| | Pob darparwr | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau eich bod yn teimlo'n ddiogel | 57 | 49 | 63 | 68 | 65 |
| Helpu i ddeall cefndiroedd eraill | 44 | 39 | 55 | - | - |
| Cefnogi byw'n iach | 30 | 26 | 42 | - | - |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes 14eg Ionawr – 23ain Chwefror 2013. Mae modd dod o hyd i faint y sylfaen a thestun y cwestiwn yn llawn ar gyfer cwestiynau unigol yn yr atodiad. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart.

# Dywedodd tri dysgwr o bob pump fod eu darparwr yn 'dda iawn' am sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel




## *Rhowch farn ar... Sicrhau eich bod yn teimlo'n ddiogel.*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 49 | 47 | 51 | 63 | 68 | 65 |




Ymatebodd 5,946 o ddysgwyr gyda '**ddim yn berthnasol i mi'** cyn i'r cwestiwn gael ei ail-sylfaenu er mwyn gallu cymharu % 'da iawn' yn well.

Mae dysgwyr **WBL** yn llawer mwy tebygol o ddweud bod eu coleg/darparwyr yn 'dda iawn', tra mae dysgwyr **AB** ar y llaw arall yn llai tebygol o ddweud hyn.


Mae dysgwyr sy'n **Fenywod, dysgwyr Gwyn** a dysgwyr **ag anawsterau a/neu anableddau dysgu** yn fwy tebygol o ddweud bod eu coleg/darparwr yn 'dda iawn'.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (49,697)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# Mae 14% yn teimlo nad yw eu darparwr yn gwneud digon i'w helpu i fyw'n iach

*Rhowch farn ar... Rhoi cymorth i chi fyw'n iach.*




**Dadansoddiad fesul sector: % eithaf gwael/gwael/gwael iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 16 | 17 | 7 | - | - |

Ymysg dysgwyr AB a WBL, roedd nifer sylweddol ohonynt (8,151) yn teimlo bod byw'n iach '**ddim yn berthnasol i mi**'. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr AB rhan-amser (dewiswyd yr opsiwn hwn gan 39% o'r rhai a ymatebodd), a dysgwyr WBL sy'n dilyn Prentisiaeth (29% o'r holl ymatebion).

Mae dysgwyr **AB** yn fwy tebygol o ddweud bod eu darparwr yn 'eithaf gwael/gwael/gwael iawn', yn yr un modd â'r rhai **dan 19**, a'r rhai o darddiad ethnig **cymysg**.

Sylfaen: pob dysgwr a ymatebodd gydag 'eithaf gwael', 'gwael' neu 'gwael iawn' (4,049)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# 9. Ymatebolrwydd

Mae'r adran hon yn edrych ar gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol ag ymatebolrwydd – gan gynnwys parch gan staff a'r cyfle i roi a derbyn adborth ar farn y dysgwr.

# 9. Ymatebolrwydd – crynodeb



Sleid 46. Fel y dangosodd y KDA, parch gan staff a delio â barn y dysgwyr yw dau ysgogwr gwanaf y profiad dysgu cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad ydynt yn bwysig; fel y nodwyd uchod, roedd perthynas gydag athrawon a staff yn un o'r themâu allweddol a ganfuwyd pan ofynnwyd i ddysgwyr beth oeddent yn ei hoffi fwyaf am eu darparwr.


Sleidiau 78 – 79. Mae tri dysgwr o bob pump (63%) yn credu bod y **parch sy'n cael ei ddangos iddynt gan staff yn 'dda iawn**,' gan wneud hwn yn un o'r mesurau uchaf ei berfformiad yn gyffredinol, gyda sgôr neilltuol o uchel gan ddysgwyr 65 oed neu hŷn (dywedodd 84% fod eu darparwr yn 'dda iawn').

Sleid 78. O'i gymharu â mesurau eraill, ymatebodd cyfran gymharol uchel o ddysgwyr gyda '**ddim yn gwybod' pan ofynnwyd iddynt pa mor dda yw eu darparwr am ofyn iddynt roi eu barn** (8%) a rhoi adborth o ganlyniad i hynny (17%). Mae hyn yn awgrymu bod dysgwyr naill ai ddim yn gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael neu wedi dewis peidio cymryd rhan – gall hyn, yn rhannol, esbonio pam ei fod yn ffactor llai o ran ysgogi boddhad cyffredinol.

Sleid 78. Serch hynny, mae **lle i wella**: dim ond 37% ddywedodd fod y cyfle i gael rhoi eu barn yn 'dda iawn', a dim ond 31% ddywedodd fod eu darparwr yn 'dda iawn' am roi adborth. Mae gofyn am farn y dysgwyr a rhoi adborth arno yn cael ei sgorio'n llai cadarnhaol mewn AB. Fodd bynnag, dysgwyr hŷn yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod 'ddim yn gwybod' digon am yr hyn sydd wedi digwydd ar ôl rhoi barn i allu rhoi sgôr am ansawdd yr adborth neu'r camau a gymerwyd – cymaint â 38% o'r rheini yn y sector CiO.

# Mae dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch y parch sy'n cael ei ddangos gan staff – 63% 'da iawn' – ond yn llai cadarnhaol am gael gofyn eu barn

## Rhowch farn ar eich coleg/darparwr o ran pob un o'r canlynol...




**Meincnod % 'da iawn'**


| Pob darparwr | AB | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|
| 63 | 51 | 69 | 78 | 83 |
| 37 | 27 | 49 | 49 | 43 |
| 31 | 24 | 45 | 37 | 24 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Mae maint y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol i'w gweld yn yr atodiad. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart. Cafodd 'parch' ei gynnwys ar wahân fel ffactor ar ei ben ei hun o fewn y Dadansoddiad o'r Prif Ysgogwyr sy'n ysgogi'r 'sgorio pwysig'

# Mae'r parch a ddangosir gan staff yn codi i 84% 'da iawn' ymysg dysgwyr 65+ oed; ond yn gostwng i 46% ymysg y rhai mewn addysg bellach amser llawn

*Rhowch farn ar… Y parch a ddangoswyd i chi gan staff.*




**Dadansoddiad fesul sector: % da iawn**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 51 | 46 | 55 | 69 | 78 | 83 |

Mae'r gwahaniaeth rhwng is-grwpiau yn adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol i fesurau eraill i raddau helaeth, gyda dysgwyr **AB** a'r rheini **dan 19 oed** yn llawer llai tebygol o ddweud bod eu coleg/darparwr yn 'dda iawn'.

Mae dysgwyr mewn AB amser llawn hefyd yn debygol o fod yn llai cadarnhaol na'r rhai mewn AB rhan-amser.


Mae dysgwyr sy'n **Fenywod, dysgwyr Gwyn** a dysgwyr **heb anawsterau a/neu anableddau dysgu** yn fwy tebygol o ddweud bod eu coleg/darparwr yn 'dda iawn'.

Sylfaen: pob person sydd wedi ymateb (53,196)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# Nid oedd cyfran gymharol uchel o ddysgwyr yn gwybod beth oedd wedi digwydd yn sgil rhoi eu barn

## *Rhowch farn ar ... Dweud wrthych am yr hyn sydd wedi digwydd yn sgil rhoi eich barn.*




**Dadansoddiad fesul sector: % dim barn / ddim yn gwybod / eithaf gwael / gwael / gwael iawn**

| AB | AB ALl | AB RhA | WBL | ACL | CiO |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | 17 | 29 | 12 | 29 | 47 |

Mae dysgwyr 25 oed neu hŷn yn llawer mwy tebygol o ddweud 'ddim yn gwybod'– gan godi i draean o'r rheini sy'n 65 oed neu hŷn.

Dywedodd un dysgwr o bob deg o dan 19 oed (10%) a'r rheini o gefndiroedd Du (11%) fod yr adborth y maent yn ei dderbyn naill ai yn eithaf gwael, yn wael, neu'n wael iawn.

Sylfaen: pob dysgwr (53,196)

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.

# 10. Dysgu yn Gymraeg

Mae'r adran hon yn ystyried cwestiynau sy'n ymwneud â dysgu yn Gymraeg – gan gynnwys dewis iaith a'r cyfle i ddysgu yn Gymraeg.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn i bob dysgwr, ac eithrio'r rheini yn y sector Cymraeg i Oedolion


# 10. Dysgu yn Gymraeg – crynodeb 1


Sleid 83. Dim ond un y cant o ddysgwyr sy'n dweud eu bod yn dymuno dysgu yn Gymraeg yn unig, ond mae naw y cant am ddysgu'n ddwyieithog.

Sleid 84. **O blith y dysgwyr i gyd, ychydig llai na'u hanner sy'n dweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg** (45%); fodd bynnag mae'r ganran hon yn disgyn i 27% o ddysgwyr yn y sector ACL. Mae cryn dipyn o ddysgwyr nad ydynt yn gwybod a gawsant y cyfle i ddysgu yn Gymraeg ai peidio (33%), a dewisodd nifer helaeth o ddysgwyr beidio ag ateb o gwbl.

# Un y cant o ddysgwyr sydd eisiau dysgu yn Gymraeg yn unig, ond byddai oddeutu un o bob deg yn hoffi dysgu'n ddwyieithog

## *Pa un o'r canlynol sydd yn disgrifio orau sut hoffech ddysgu?*




**Dadansoddiad fesul sector: % Cymraeg / dwyieithog**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL |
|---|---|---|---|---|
| 11 | 10 | 11 | 8 | 10 |


Mae'r awydd i ddysgu yn Gymraeg/ddwyieithog yn gyson fwy neu lai ar draws y sectorau AB, WBL ac ACL, ond mae'n fwyaf amlwg ymhlith y grŵp oed ieuengaf, sef dysgwyr o dan 19 oed (12%).


Nid yw dysgu yn Gymraeg/ ddwyieithog yn cael ei ffafrio gymaint ymhlith y rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd a Chymysg.

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Cyfanswm maint y sylfaen: 50,977.
O'r rheini y mae'n well ganddynt y Saesneg (45,958); o'r rheini y mae'n well ganddynt y ddwy iaith (4,450); o'r rheini y mae'n well ganddynt y Gymraeg (569)

# Mae 45% o ddysgwyr yn dweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / ddwyieithog, ond nid yw nifer sylweddol o ddysgwyr yn gwybod beth oedd yn cael ei gynnig

## *A wnaeth eich coleg/darparwr gynnig y cyfle i chi ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyda chymorth iaith Gymraeg?*




**Dadansoddiad fesul sector: % Cymraeg yn unig/ Cymraeg a Saesneg**

| AB | AB ALI | AB RhA | WBL | ACL |
|---|---|---|---|---|
| 45 | 51 | 41 | 58 | 27 |

Yn ogystal â'r gyfran a ddywedodd 'ddim yn gwybod', roedd y niferoedd nad oedd wedi ymateb yn uchel hefyd (2,062), ac mae hyn yn awgrymu bod grŵp arall o ddysgwyr ddim yn gwybod a gawsant y cyfle i ddysgu yn Gymraeg ai peidio.

Mae'r gyfran ar gyfer cael cynnig y cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ei huchaf ymhlith dysgwyr iau, ac ar ei hisaf ymhlith y rheini o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Cyfanswm maint y sylfaen: 50604.
O'r rheini y mae'n well ganddynt y Saesneg (45,534); o'r rheini y mae'n well ganddynt y ddwy iaith (4,408); o'r rheini y mae'n well ganddynt y Gymraeg (564)

# 10. Dysgu yn Gymraeg – crynodeb 2




Sleid 86 ac 87. Fodd bynnag, **ceir anghysondeb rhwng y galw a'r cyflenwad o hyd**: 54% o'r rheini a oedd yn dymuno dysgu yn Gymraeg a Saesneg ddywedodd eu bod wedi cael cynnig y cyfle i wneud hynny; a 29% o'r rheini a oedd yn dymuno dysgu yn Gymraeg yn unig ddywedodd eu bod wedi cael cynnig y cyfle i wneud hynny.

Sleid 88. Mae'r galw i ddysgu yn Gymraeg ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru. Mae cyfran y dysgwyr sy'n cael cynnig y cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arbennig o isel yn y sector ACL, ac mae'n amrywio yn ôl y math o raglen a phwnc.

# I bob golwg, ceir anghysondeb rhwng y galw am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog, a'r lefelau cyflenwi

**Pa un o'r canlynol sydd yn disgrifio orau sut hoffech ddysgu? *(Sylfaen: AB, WBL, ACL)***

- Mae'n well gennyf ddysgu yn Saesneg
- Mae'n well gennyf ddysgu yn Gymraeg
- Mae'n well gennyf ddysgu yn Gymraeg a Saesneg




| *O'r rheini y mae'n well ganddynt y Gymraeg...* | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 29 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 37 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 20 |
| Ddim yn gwybod | 14 |


| *O'r rheini y mae'n well ganddynt y Saesneg...* | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 4 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 39 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 23 |
| Ddim yn gwybod | 34 |

| *O'r rheini y mae'n well ganddynt y ddwy iaith...* | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 8 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 54 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 22 |
| Ddim yn gwybod | 15 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Cyfanswm maint y sylfaen: 50,604.
O'r rheini y mae'n well ganddynt y Saesneg (45,534); o'r rheini y mae'n well ganddynt y ddwy iaith (4,408); o'r rheini y mae'n well ganddynt y Gymraeg (564)

# Dywedodd bron i hanner (47%) y dysgwyr sydd ag ychydig o sgiliau iaith Gymraeg na chawsant gynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg

**Sut y byddech chi'n disgrifio eich sgiliau iaith Gymraeg? *(Sylfaen: AB, WBL, ACL)***




| O'r rheini sy'n rhugl… | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 11 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 54 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 22 |
| Ddim yn gwybod | 13 |

| O'r rheini sydd â dim o gwbl… | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 4 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 34 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 24 |
| Ddim yn gwybod | 38 |


| O'r rheini sydd â rhywfaint o sgiliau… | % |
|---|---|
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg yn unig | 4 |
| Do, cefais y cyfle i ddysgu yn Gymraeg a Saesneg | 44 |
| Na, ches i ddim cyfle i ddysgu yn Gymraeg | 21 |
| Ddim yn gwybod | 30 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Cyfanswm maint y sylfaen: 50,827.
O'r rheini sydd â dim o gwbl (25,428); o'r rheini sydd ag ychydig (19,356); o'r rheini sy'n rhugl (6,043)

# Mae'r galw ar gyfer dysgu yn Gymraeg ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru, ac yma hefyd y ceir y gyfran uchaf o ddysgwyr a gafodd gynnig y cyfle i wneud hynny

## *Pa un o'r canlynol sydd yn disgrifio orau sut hoffech ddysgu? A wnaeth eich coleg/darparwr gynnig y cyfle i chi ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyda chymorth iaith Gymraeg?*

| | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau gwneud hynny |
| **AB** | 17% | 61% | 76% |
| **WBL** | 16% | 75% | 88% |
| **ACL** | 25% | 47% | 74% |




| | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau gwneud hynny |
| **AB** | 14% | 62% | 60% |
| **WBL** | 13% | 68% | 76% |
| **ACL** | 8% | 30% | 60% |

| | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau gwneud hynny |
| **AB** | 7% | 33% | 38% |
| **WBL** | 4% | 51% | 59% |
| **ACL** | 6% | 20% | 43% |

| | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau gwneud hynny |
| **AB** | 7% | 40% | 55% |
| **WBL** | 8% | 62% | 69% |
| **ACL** | 5% | 15% | 24% |

# 10. Dysgu yn Gymraeg – crynodeb 3

Sleid 90. Mae dysgwyr yn y sector ACL, y rheini sy'n 45 oed a hŷn, a'r rheini o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / yn ddwyieithog.

Sleid 91. **Yn y sector addysg bellach**: roedd cyfran is o ddysgwyr a oedd yn astudio Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant yn dweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg, er gwaethaf y galw cymharol uchel.

Sleid 92. **Yn y sector dysgu seiliedig ar waith**: o'u cymharu â dysgwyr a oedd yn dilyn Prentisiaethau neu'n ymgymryd â Dysgu Hyblyg, nifer bach o ddysgwyr a oedd yn dilyn Hyfforddeiaeth oedd wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / yn ddwyieithiog.

Sleid 93. **Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned:** ceir galw sylweddol am ddysgu yn Gymraeg / ddwyieithog ymhlith dysgwyr ar gyrsiau Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth; mae dysgwyr ar gyrsiau hamdden, teithio a thwristiaeth, a'r celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi, yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle (os oeddent yn dymuno gwneud hynny) i ddysgu yn Gymraeg / yn ddwyieithog.

# Mae dysgwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned a'r rheini o gefndir BME yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / ddwyieithog.



| | | | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | % rhugl neu ychydig o sgiliau iaith Gymraeg | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | Fel % o'r rheini sy'n rhugl / sydd ag ychydig o sgiliau iaith Gymraeg |
| ***Pob dysgwr mewn AB, WBL ac ACL*** | 47% | 10% | 45% | **63%** | 53% |
| AB | 53% | 11% | 45% | **62%** | 52% |
| *AB amser llawn* | 55% | 10% | 51% | **67%** | 57% |
| *AB rhan-amser* | 52% | 11% | 41% | **61%** | 48% |
| WBL | 42% | 8% | 58% | **75%** | 66% |
| ACL | 35% | 10% | 27% | **53%** | 36% |
| Gwryw | 45% | 10% | 48% | **66%** | 56% |
| Benyw | 49% | 9% | 42% | **61%** | 50% |
| Dan 19 | 59% | 12% | 49% | **68%** | 55% |
| 19-24 | 50% | 9% | 54% | **65%** | 59% |
| 25-44 | 38% | 8% | 41% | **57%** | 48% |
| 45-64 | 34% | 9% | 35% | **57%** | 43% |
| 65+ | 35% | 8% | 38% | **50%** | 37% |
| Gwyn | 48% | 10% | 46% | **64%** | 53% |
| BME | 31% | 6% | 29% | **41%** | 40% |
| Dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (LLDD) | 40% | 10% | 45% | **66%** | 55% |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013. Cyfanswm maint y sylfaen: 50,604. O'r rheini y mae'n well ganddynt y Saesneg (45,534); o'r rheini y mae'n well ganddynt y ddwy iaith (4,408); o'r rheini y mae'n well ganddynt y Gymraeg (564)

# Er y galw, mae'r rheini sy'n dilyn cwrs iaith, llenyddiaeth neu ddiwylliant ymhlith y rhai lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / ddwyieithog



| | | | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **% rhugl neu ychydig o sgiliau iaith Gymraeg** | **% eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog** | **Cyfanswm** | **Fel % o'r rheini sydd eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog** | **Fel % o'r rheini sy'n rhugl / sydd ag ychydig o sgiliau iaith Gymraeg** |
| ***Pob dysgwr AB*** | 53% | 11% | 45% | **62%** | 52% |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | *56%* | *10%* | *47%* | ***72%*** | *56%* |
| Gwyddoniaeth a Mathemateg | *59%* | *8%* | *45%* | ***60%*** | *51%* |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofalu am Anifeiliaid | *63%* | *14%* | *60%* | ***78%*** | *65%* |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | *51%* | *11%* | *52%* | ***71%*** | *57%* |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | *45%* | *12%* | *45%* | ***60%*** | *52%* |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | *48%* | *7%* | *49%* | ***72%*** | *56%* |
| Adwerthu a Mentrau Masnachol | *55%* | *10%* | *53%* | ***66%*** | *59%* |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | *63%* | *11%* | *50%* | ***49%*** | *52%* |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | *56%* | *9%* | *50%* | ***59%*** | *54%* |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | *63%* | *11%* | *47%* | ***82%*** | *56%* |
| Y Gwyddorau Cymdeithasol | *63%* | *7%* | *36%* | ***70%*** | *38%* |
| Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | *58%* | *17%* | *35%* | ***51%*** | *42%* |
| Addysg a Hyfforddiant | *59%* | *15%* | *41%* | ***76%*** | *41%* |
| Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | *50%* | *11%* | *45%* | ***55%*** | *53%* |
| Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | *51%* | *8%* | *35%* | ***55%*** | *41%* |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.
Sylfaen: Pob dysgwr AB: (31,808)

# Yn y sector dysgu seiliedig ar waith, mae'r cyfle i ddysgu yn Gymraeg / ddwyieithog yn llai amlwg ymhlith Hyfforddeiaethau



| | | | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | % rhugl neu ychydig o sgiliau iaith Gymraeg | % eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | Cyfanswm | Fel % o'r rheini sydd eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | Fel % o'r rheini sy'n rhugl / sydd ag ychydig o sgiliau iaith Gymraeg |
| ***Pob dysgwr WBL*** | 42% | 8% | 58% | **75%** | 66% |
| Prentisiaeth Sylfaen | *42%* | *8%* | *64%* | ***83%*** | *72%* |
| Prentisiaeth | *46%* | *8%* | *63%* | ***75%*** | *68%* |
| Prentisiaeth Uwch | *40%* | *5%* | *52%* | ***68%*** | *63%* |
| Hyfforddeiaeth | *42%* | *8%* | *40%* | ***63%*** | *48%* |
| Camau at Waith | *34%* | *5%* | *45%* | ***69%*** | *51%* |
| Dysgu Hyblyg | *36%* | *3%* | *68%* | ***60%*** | *76%* |
| Adeiladu Sgiliau | *33%* | *6%* | *50%* | ***67%*** | *61%* |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.
Sylfaen: Pob dysgwr WBL (13,266)

# Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, mae'r rheini sy'n dilyn cyrsiau hamdden a'r celfyddydau yn llai tebygol o gael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg



| | | | % wedi cael cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **% rhugl neu rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg** | **% eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog** | **Cyfanswm** | **Fel % o'r rheini sydd eisiau dysgu yn Gymraeg / Ddwyieithog** | **Fel % o'r rheini sy'n rhugl / sydd ag ychydig o sgiliau iaith Gymraeg** |
| ***Pob dysgwr ACL*** | 35% | 10% | 27% | **53%** | 36% |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | *28%* | *7%* | *48%* | ***62%*** | *36%* |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | *29%* | *7%* | *34%* | ***62%*** | *50%* |
| Adwerthu a Mentrau Masnachol | *38%* | *10%* | *25%* | ***71%*** | *35%* |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | *49%* | *7%* | *26%* | ***50%*** | *21%* |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | *33%* | *8%* | *24%* | ***41%*** | *25%* |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | *49%* | *23%* | *34%* | ***65%*** | *43%* |
| Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | *40%* | *14%* | *18%* | ***53%*** | *32%* |
| Sgiliau Byw'n Annibynnol | *12%* | *2%* | *18%* | ***100%*** | *29%* |
| Addysg Sylfaenol i Oedolion | *38%* | *13%* | *42%* | ***60%*** | *49%* |
| Saesneg i siaradwyr Ieithoedd Eraill | *13%* | *7%* | *15%* | ***70%*** | *38%* |
| Maes pwnc arall | *41%* | *10%* | *27%* | ***51%*** | *34%* |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013. Cynhaliwyd y gwaith maes Ionawr 14eg – Chwefror 23ain 2013.
Sylfaen: Pob dysgwr ACL (7,399)

# Atodiad

# Proffil y sampl – a ddefnyddiwyd i bwysoli 1



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % cyfanswm y dysgwyr heb ei phwysoli | % cyfanswm y dysgwyr wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | O dan 19 oed | 23,251 | 44% | 32% |
| | 19 - 24 | 11,517 | 22% | 18% |
| | 25-44 | 10,589 | 20% | 28% |
| | 45-64 | 5,349 | 10% | 16% |
| | 65+ | 2,393 | 5% | 6% |
| | Ddim yn gwybod | 116 | * | * |
| **Rhyw** | Gwryw | 24,987 | 47% | 43% |
| | Benyw | 28,080 | 53% | 57% |
| | Ddim yn gwybod | 147 | * | * |
| **Grwpiau dysgwyr** | **Grwpiau dysgwyr** | **Nifer yr ymatebion** | **% dysgwyr AB heb ei phwysoli** | **% dysgwyr AB wedi ei phwysoli** |
| **Modd Addysg Bellach** | AB Amser llawn | 19,939 | 63% | 40% |
| | AB Rhan-amser | 6,464 | 20% | 42% |
| | Ddim yn gwybod | 5,405 | 17% | 18% |
| **Lefel cwrs AB** | Lefel Mynediad | 1,556 | 5% | 6% |
| | Lefel 1 | 4,122 | 13% | 14% |
| | Lefel 2 | 9,075 | 29% | 31% |
| | Lefel 3+ | 15,715 | 49% | 43% |
| | Lefel anhysbys | 1,340 | 4% | 5% |

# Proffil y sampl – a ddefnyddiwyd i bwysoli 2



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % dysgwyr WBL heb ei phwysoli | % dysgwyr WBL wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Math o Raglen WBL** | Prentisiaeth Sylfaen | 4,041 | 32% | 41% |
| | Prentisiaeth | 4,725 | 38% | 33% |
| | Prentisiaeth Uwch | 540 | 4% | 4% |
| | Hyfforddeiaeth | 1,969 | 16% | 13% |
| | Camau at Waith | 761 | 6% | 5% |
| | Dysgu hyblyg | 199 | 2% | 2% |
| | Adeiladu Sgiliau | 72 | 1% | 1% |
| | Ddim yn gwybod | 308 | 2% | 3% |

# Proffil y sampl – a ddefnyddiwyd i bwysoli 3



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % dysgwyr ACL heb ei phwysoli | % dysgwyr ACL wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Pwnc Sector – ACL** | Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 546 | 9% | 3% |
| | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1,009 | 16% | 16% |
| | Adwerthu a Mentrau Masnachol | 86 | 1% | 1% |
| | Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 82 | 1% | 1% |
| | Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 1,108 | 18% | 19% |
| | Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 100 | 2% | 1% |
| | Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | 645 | 10% | 15% |
| | Sgiliau Byw'n Annibynnol | 54 | 1% | 1% |
| | Addysg Sylfaenol i Oedolion | 466 | 8% | 6% |
| | Saesneg i siaradwyr Ieithoedd Eraill | 298 | 5% | 4% |
| | Maes pwnc arall | 1,696 | 27% | 31% |
| | Ddim yn gwybod | 142 | 2% | 2% |

# Proffil y sampl – a ddefnyddiwyd i bwysoli 4



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % dysgwyr CiO heb ei phwysoli | % dysgwyr CiO wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel Cwrs CiO** | Lefel derbyn | 666 | 38% | 44% |
| | Lefel sylfaenol | 396 | 23% | 23% |
| | Lefel ganolradd | 328 | 19% | 15% |
| | Lefel uwch | 215 | 12% | 11% |
| | Lefel medrusrwydd | 80 | 5% | 4% |
| | Lefel arall | 22 | 1% | 1% |
| | Ddim yn gwybod | 31 | 2% | 2% |

# Proffil y sampl – newidynnau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith dadansoddi is-grwpiau ychwanegol



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % cyfanswm y dysgwyr heb ei phwysoli | % cyfanswm y dysgwyr wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 49,535 | 94% | 94% |
| | Du | 579 | 1% | 1% |
| | Asiaidd | 1106 | 2% | 1% |
| | Cymysg | 748 | 1% | 1% |
| | Arall | 361 | 1% | 1% |
| | Ddim yn gwybod | 1569 | 3% | 3% |
| **Dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (LLDD)** | Dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (LLDD) | 5,486 | 10% | 11% |
| | Dysgwyr heb anawsterau a/neu anableddau dysgu (Dim LLDD) | 45,304 | 85% | 85% |
| | Ddim yn gwybod | 2,670 | 5% | 5% |
| **Rhanbarth** | Canolbarth Cymru | 1,536 | 4% | 4% |
| | Gogledd Cymru | 11,037 | 29% | 28% |
| | De-ddwyrain Cymru | 19,221 | 47% | 49% |
| | De-orllewin Cymru | 7,326 | 20% | 19% |

# Proffil y sampl – newidynnau a ddefnyddiwyd i broffilio, nid i bwysoli



| Grwpiau dysgwyr | Grwpiau dysgwyr | Nifer yr ymatebion | % dysgwyr AB heb ei phwysoli | % dysgwyr AB wedi ei phwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Pwnc Sector – AB** | Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 3,030 | 14% | 14% |
| | Gwyddoniaeth a Mathemateg | 1,988 | 9% | 8% |
| | Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofalu am Anifeiliaid | 788 | 4% | 4% |
| | Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 2,791 | 13% | 12% |
| | Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 1,821 | 9% | 9% |
| | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1,577 | 8% | 7% |
| | Adwerthu a Mentrau Masnachol | 2,512 | 12% | 10% |
| | Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 1,377 | 7% | 5% |
| | Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 2,368 | 11% | 9% |
| | Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 448 | 2% | 2% |
| | Y Gwyddorau Cymdeithasol | 468 | 2% | 2% |
| | Iaith, Llenyddiaeth a Diwylliant | 1,406 | 7% | 7% |
| | Addysg a Hyfforddiant | 286 | 1% | 2% |
| | Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | 4,354 | 21% | 18% |
| | Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | 2,339 | 11% | 12% |

# Maint sylfaen y cwestiynau



| Rhif y cwestiwn | Sector(au) a holwyd | Crynodeb o'r cwestiwn | Y cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg | Maint y sylfaen |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Pob un | Barn gyffredinol | Rhowch farn ar eich coleg / darparwr yn gyffredinol. | 53,564 |
| 9 | Pob un | Disgwyliadau cyffredinol | A yw'r cwrs / hyfforddiant hwn fel roeddech chi'n ei ddisgwyl? Meddyliwch am y gwaith y mae'n rhaid i chi ei wneud, cynnwys y cwrs / hyfforddiant a'r cyngor a gawsoch pan roeddech chi'n dewis y cwrs / hyfforddiant. | 53,564 |
| **Gwybodaeth a chyngor** | | | | |
| 1 | Pob un | Gwybodaeth wrth ddewis cwrs | Rhowch farn ar y wybodaeth a roddwyd i chi gan eich coleg / darparwr pan roeddech yn dewis eich cwrs / hyfforddiant. | 51,913 |
| 2 | Pob un | Gwybodaeth am opsiynau sydd ar gael | Rhowch farn ar y wybodaeth a'r cyngor a roddwyd i chi gan eich coleg / darparwr am y gwahanol opsiynau sydd ar gael i chi pan fyddwch wedi cwblhau eich cwrs / hyfforddiant. | 50,108 |
| **Help a Chefnogaeth** | | | | |
| | | | *Meddyliwch am sut mae eich coleg / darparwr yn eich cefnogi chi a'ch proses ddysgu. Rhowch farn ar eich coleg / darparwr o ran pob un o'r canlynol…* | |
| 3a | Pob un | Help i ymgyfarwyddo | Eich helpu i setlo yn y coleg / hyfforddiant / cwrs. | 52,669 |
| 3b | Pob un | Rhoi gwybod i chi ble i fynd i gael cymorth | Rhoi gwybod i chi ble ddylech chi fynd am gymorth, o fewn a thu allan i'ch coleg / darparwr | 51,508 |
| 3c | Pob un | Darparu help a chefnogaeth benodol | Darparu cymorth a chefnogaeth penodol gyda materion sy'n ymwneud â'ch cwrs / hyfforddiant | 51,703 |
| 3d | Pob un | Darparu cymorth dysgu ychwanegol | Darparu gwasanaethau cymorth dysgu ychwanegol fel darllen, ysgrifennu neu fathemateg. | 42,874 |
| 3e | Pob un | Sicrhau bod yr offer cywir gennych chi | Sicrhau bod yr offer a'r deunyddiau cywir ar gyfer eich cwrs / hyfforddiant gennych chi. | 51,370 |
| 3f | Pob un | Darparu cymorth gyda materion personol | Cymorth gyda materion personol sy'n eich helpu i barhau â'ch cwrs / hyfforddiant, er enghraifft, materion ariannol neu faterion yn ymwneud â gofal plant, trafnidiaeth ac iechyd. | 42,794 |

# Maint sylfaen y cwestiynau



| Rhif y cwestiwn | Sector(au) a holwyd | Crynodeb o'r cwestiwn | Y Cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg | Maint y sylfaen |
|---|---|---|---|---|
| **Ymatebolrwydd** | | | | |
| | | | *Rhowch farn ar eich coleg / darparwr o ran pob un o'r canlynol…* | |
| 4a | Pob un | Parch gan staff | Parch a ddangosir i chi gan holl staff y coleg / darparwr (eich aseswr neu diwtor ac unrhyw berson arall rydych wedi siarad ag ef) / darparwr (eich athro neu diwtor ac unrhyw berson arall rydych wedi siarad ag ef) / darparwr (eich athro neu diwtor ac unrhyw berson arall rydych wedi siarad ag ef). | 53,639 |
| 4b | Pob un | Gofyn i chi roi eich barn | Gofyn i chi roi eich barn ar y coleg, er enghraifft, cyngor myfyrwyr neu holiaduron / darparwr, er enghraifft, arolygon neu holiaduron. | 53,412 |
| 4c | Pob un | Adborth yn sgil rhoi barn | Dweud wrthych am yr hyn sydd wedi digwydd yn sgil rhoi eich barn. | 53,196 |
| **Iechyd a lles** | | | | |
| | | | Rhowch farn ar eich coleg / darparwr o ran y canlynol, ...Os yw'r cwestiwn yn amherthnasol i chi dewiswch 'nid yw hyn yn berthnasol i mi'. | |
| 5a | Pob un | Gwneud yn siŵr eich bod yn teimlo'n ddiogel | Gwneud yn siŵr eich bod yn teimlo'n ddiogel ar eich cwrs / hyfforddiant. | 49,697 |
| 5b | WBL ac AB | Rhoi cymorth i fyw'n iach | Rhoi cymorth i chi fyw'n iach, er enghraifft, darparu cyfleusterau a rhoi gwybodaeth am ymarfer corff a deiet iach. | 37,155 |
| 5c | WBL ac AB | Helpu i ddeall cefndiroedd gwahanol | Eich helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol | 41,274 |

# Maint sylfaen y cwestiynau



| Rhif y cwestiwn | Sector(au) a holwyd | Crynodeb o’r cwestiwn | Y cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg | Maint y sylfaen |
|---|---|---|---|---|
| **Addysgu a hyfforddi** | | | | |
| | | | *Meddyliwch nawr am eich profiad yn eich dosbarthiadau gydag athrawon neu diwtoriaid. / Mae'r cwestiynau nesaf yn gofyn am eich barn ar eich tiwtoriaid neu aseswyr rydych mewn cysylltiad â hwy fel rhan o'ch hyfforddiant. Mae'n bosibl eich bod yn eu gweld pan rydych yn mynd i leoliad eich darparwr a hefyd yn y gweithle os ydych yn cael eich cyflogi. / Meddyliwch nawr am eich profiad yn eich dosbarthiadau gydag athrawon neu diwtoriaid. Os yw unrhyw un o'r cwestiynau yn amherthnasol i chi, dywedwch hynny.* | |
| 6a | Pob un | Siarad am nodau dysgu | Siarad am eich nodau dysgu. | 65,810 |
| 6b | Pob un | Esbonio gwaith | Esbonio'r gwaith y mae'n rhaid i chi ei wneud. | 65,793 |
| 6c | Pob un | Gwrando arnoch chi | Gwrando arnoch chi a'r hyn sydd ei angen arnoch chi i'ch helpu i ddysgu. | 65,770 |
| 6d | Pob un | Adborth ar sut i wella | Rhoi adborth i chi ar sut i wella. | 65,751 |
| 6e | Pob un | Gwneud yn siŵr nad oes dim yn tarfu ar eich gwaith | Gwneud yn siŵr nad yw dysgwyr eraill yn tarfu ar eich gwaith. | 65,610 |
| 6f | Pob un | Trin yn deg a chyda pharch | Eich trin yn deg a chyda pharch. | 65,784 |
| 6g | Pob un | Defnydd da o amser | Gwneud defnydd da o'ch amser gan gynnwys dechrau a gorffen gwersi'n brydlon. | 65,771 |
| 6h | ACL, CiO ac AB | Cynnal eich diddordeb | Cyflwyno'r cwrs mewn ffordd sy'n cynnal eich diddordeb. | 51,546 |
| 6i | WBL | Rhoi digon o amser un-i-un i chi | Rhoi digon o amser un-i-un i chi. | 12,818 |
| 6j | WBL | Sicrhau bod hyfforddiant yn berthnasol | Sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol i'r gwaith rydych yn ei wneud neu'n dymuno ei wneud. | 12,775 |

# Maint sylfaen y cwestiynau



| Rhif y cwestiwn | Sector(au) a holwyd | Crynodeb o'r cwestiwn | Y cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg | Maint y sylfaen |
|---|---|---|---|---|
| **Dysgu yn Gymraeg** | | | | |
| 7a | AB, WBL, ACL | Dewis defnyddio'r Gymraeg | Pa un o'r canlynol sydd yn disgrifio orau sut hoffech ddysgu? | 50,977 |
| 7b | AB, WBL, ACL | Wedi cynnig y cyfle i ddysgu yn Gymraeg/Cymraeg a Saesneg? | A wnaeth eich coleg / darparwr gynnig y cyfle i chi ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyda chymorth iaith Gymraeg? | 50,604 |
| 7c | AB, WBL, ACL | Sgiliau iaith Gymraeg | Sut y byddech chi'n disgrifio eich sgiliau iaith Gymraeg? | 50,827 |

# Arweiniad ar ddibynadwyedd ystadegau – 1

- Dylid cofio mai dim ond sampl o ddysgwyr gymerodd ran yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru, ac mae'n rhaid ystyried hynny wrth edrych ar y canlyniadau.
- Gellir rhagfynegi'r amrywiad rhwng canlyniadau'r sampl a'r "gwir" werthoedd (h.y. pe bai pawb wedi cael cyfweliad) wrth edrych ar wybodaeth ynghylch nifer y bobl sy'n ymateb i gwestiwn (maint y sylfaen) a sawl gwaith y rhoddir ateb penodol.
- Er enghraifft, wrth edrych ar gwestiwn lle mae 50% o'r dysgwyr yn y sector WBL yn rhoi ateb penodol, mae'r tebygolrwydd yn 95 mewn 100 na fyddai'r canlyniad hwn yn amrywio, plws neu finws, fwy nag 1 pwynt canran.
- *Cofiwch: A bod yn fanwl gywir, dim ond i hapsamplau y mae'r ystyriaethau sydd i'w gweld yma yn berthnasol.*

**Yr ystyriaethau samplu bras sy'n berthnasol i ganrannau ar y lefelau hyn neu'n agos iddynt**

| | 10% neu 90% | 30% neu 70% | 50% |
|---|---|---|---|
| | ± | ± | ± |
| *Maint y sampl y mae canlyniad yr arolwg wedi'i seilio arno* | | | |
| 53,928 (Pob un – Cymru) | 1 | 1 | 1 |
| 39,699 (AB) | 1 | 1 | 1 |
| 13,266 (WBL) | 1 | 1 | 1 |
| 7,399 (ACL) | 1 | 1 | 1 |
| 1,815 (CiO) | 1 | 2 | 2 |

Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36492)

# Arweiniad ar ddibynadwyedd ystadegau – 2

- Pan fydd canlyniadau'n cael eu cymharu rhwng is-grwpiau (e.e. dynion a menywod), mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau'n ymddangos. Efallai fod y gwahaniaeth yn un "go iawn", neu efallai ei fod yn digwydd drwy siawns (gan nad yw pawb wedi cael cyfweliad). I weld a yw'r gwahaniaeth yn un go iawn – h.y. os yw'n "ystadegol arwyddocaol" – mae'n rhaid i ni wybod beth yw maint y samplau, y ganran sy'n rhoi ateb penodol, a lefel yr hyder a ddewiswyd.
- Er enghraifft, os yw 50% o ddysgwyr Asiaidd (maint y sylfaen: 597) yn rhoi ateb penodol, a bod 53% o ddysgwyr o gefndir ethnig Cymysg (maint y sylfaen: 393) yn rhoi'r un ateb, **nid** oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng ymatebion y ddau grŵp.
- Fodd bynnag, os yw 47% o ddysgwyr Asiaidd yn rhoi'r un ateb, **mae hyn yn** wahaniaeth ystadegol arwyddocaol (gan fod mwy na 4.0 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y ddau).
- Mae'r ystod sydd ei hangen i fod yn ffyddiog o wahaniaethau 'go iawn' yn cynyddu wrth i faint sylfaen y ddau is-grŵp fynd yn llai.

**Y gwahaniaethau sy'n ofynnol i gael arwyddocâd ar y lefelau hyn neu'n agos iddynt**

| | 10% neu 90% | 30% neu 70% | 50% |
|---|---|---|---|
| | ± | ± | ± |
| 897 (Asiaidd) o'i gymharu â 393 (Cefndir ethnig Cymysg) | **2.4** | **3.7** | **4.0** |
| 1,009 (Maes Pwnc Sector TGCh – ACL) o'i gymharu ag 82 (Maes Pwnc Sector hamdden, teithio a thwristiaeth – ACL) | **6.8** | **10.4** | **11.3** |

Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36492)

# Dadansoddiad o’r Prif Ysgogwyr – nodyn technegol



- Cynhaliwyd dadansoddiad o’r prif ysgogwyr ar Gwestiwn 8 "Rhowch farn ar eich coleg/darparwr yn gyffredinol" i helpu i ddeall pa agweddau ar brofiad y dysgwyr oedd bwysicaf ar gyfer siapio barn gyffredinol dysgwr ynghylch ei ddarparwr.
- Roedd y set ddata gychwynnol yn cynnwys 53,898 o ymatebwyr, ond cafodd nifer yr ymatebion a oedd yn rhan o'r dadansoddiad ei ostwng i 33,534 i ystyried dysgwyr:
    - na atebodd C8 (y newidyn dibynnol) neu a roddodd 'ddim yn gwybod' fel ateb
    - a atebodd "Ddim yn berthnasol i mi" i unrhyw un o'r 20 ysgogwr
    - na roddodd ateb i o leiaf 10 o'r ysgogwyr.
- Ychwanegwyd gweddill y gwerthoedd coll gan ddefnyddio dulliau Markov Chain Monte Carlo (dyma'r arfer o 'lenwi' data sydd ar goll gyda gwerthoedd tebygol, gan seilio'r data ar ymatebion ymatebwyr o'r un anian).
- Cynhaliwyd dadansoddiad o ffactorau i leihau nifer yr 'ysgogwyr' i'w hystyried gan y KDA. Mae'r dadansoddiad o ffactorau yn chwilio am gwestiynau sy'n rhoi ymatebion tebyg, gan ddod â nhw at ei gilydd fel mai dim ond ffactor anghydberthynol ('ysgogwyr') a ystyrir yn yr un model KDA.
- Yna defnyddiwyd atchweliad llinellol i ddadansoddi'r berthynas rhwng y newidyn dibynnol (barn gyffredinol) a'r 6 ffactor anghydberthynol. Roedd y dadansoddiad yn rheoli gwahaniaeth mewn oed, rhyw, ethnigrwydd; ac ni chanfu unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng sectorau.
- Roedd pwysiadau'n berthnasol i'r dadansoddiad atchweliad er mwyn sicrhau ei fod yn gynrychioladol o broffil y dysgwr.
- Arweiniodd hyn at y canrannau a ddangosir yn y Dadansoddiad o’r Prif Ysgogwyr.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Dadansoddiad o’r Prif Ysgogwyr a gynhaliwyd yn yr adroddiad technegol.

# Meysydd ar gyfer gwella – Addysg bellach


## *Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*




Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36,492). Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

# Meysydd ar gyfer gwella – Dysgu seiliedig ar waith


## *Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*




Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36,492). Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

# Meysydd ar gyfer gwella – Dysgu oedolion yn y gymuned

## *Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*




Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36,492). Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

*Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella?*




Sylfaen: Pob un sy'n ymateb i gwestiwn 11 (36492). Mae'r cymylau geiriau wedi'u creu o sylwadau air am air sydd wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr, ac felly, nid ydynt wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.